
# ECO'R WYDDFA

RHIF 30 HYDREF 1978 Pris: 10c

## PRIS YR ECO YN CODI

**Oherwydd codiad ym mhris argraffu'r ECO, drwg gennym fel bwrdd golygyddol orfod cyhoeddi y bydd pris y papur yn codi i 12 ceiniog o'r mis nesaf ymlaen. Ymddiheurwn am hyn gan ofyn yn daer am eich dealltwriaeth a'ch cefnogaeth fel o'r blaen.**

# Llyn Peris yn gwagio —




*Llun a dynnwyd nos Fercher, Medi 20. Gobeithiwn gyflwyno llun wedi ei dynnu o'r un safle â'r uchod bob mis o hyn allan*

**BYTH er pan ddechreuodd y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan ar y gwaith o sychu Llyn Peris bu llawer un yn yr ardal yn meddwl pa gyfrinachau fuasai'n cael eu datgelu ar ei ochrau a'i waelod. Cawsom ran o'r ateb yn ddiweddar pan ddarganfuwyd, na, nid trysor gwerthfawr nac ysgerbwd 'chwaith, ond gwahanol fathau o fomiau llaw a berthynai, yn ôl pob cred, i'r Gwarchodlu Cartref yn ystod y Rhyfel Byd diwethaf.**

Daethpwyd o hyd i'r bomiau mewn dŵr bas yng ngheg afon Bala. Hen newyddion bellach yw i'r bomiau yma gael eu ffrwydro yn y fan a'r lle gan arbenigwyr o'r fyddin. Nid oes neb yn sicr nad oes rhagor o ffrwydryddion tebyg i'w cael yn y llyn.

Mae lefel wyneb Llyn Peris yn prysur ostwng o wythnos i wythnos. Tri phwmp cryf sy'n gyfrifol am y gwaith o sugno'r dŵr, un ohonynt yn gwagio'n syth i Afon Hwch a'r ddau arall i'r twnnel ger Swyddfa Gocyn ac yna i Hwch. Llyn Padarn, wrth gwrs, sy'n derbyn yr holl ddŵr yn y diwedd. Cyfleustra yw gwneud hyn i gyd er mwyn galluogi'r peiriannau fynd ati i glirio'r tomenydd o lechi sydd ar lannau'r llyn ac sydd, ar hyn o bryd, o dan ei wyneb. Bwriad y B.C.C.T. yw clirio digon o fwd a rwbel fel eu bod yn cyrraedd y graig noeth. Bydd hyn yn rhoi llawer mwy o le i storio'r dŵr fydd ei angen ar gyfer y cynllun. Yr unig ffordd arall i gael y folum o ddŵr angenrheidiol fuasai codi dwy argae uchel, un bob pen i Lyn Peris. Gwrthodwyd y syniad hwnnw gan y Cyngor Sir, ac felly lansiwyd y cynllun presennol ychydig wythnosau yn ôl. Ym 1981, pryd y bydd angen y llyn yn llawn bydd arwynebedd ei wyneb tua hanner gwaith yn fwy nag yw ar hyn o bryd.




*JCB ar lwyfan bychan ar y dŵr. Ei waith yw crafu'r rwbel a'i lwytho i fad sy'n ei gario i'r lan. Dyma'r un ffordd o glirio'r ochrau serth. Mae gweithio o'r dŵr yn ffordd o ofalu nad yw'r glannau'n cael eu hagru'n ormodol gan y peiriannau trwm. Yn y cefndir yng nghanol y llyn gwelir dau o'r peiriannau sugno.*

Ac ystyried y dyddiad uchod nid yw'r peirianwyr yn mynd i fod ar frys mawr i wneud y gwaith o wagio'r llyn, gwaith fyddai'n cymryd ond ychydig fisoedd pe bai dyna'r unig fwriad. Mae'n rhaid gwneud y gwaith yn ofalus iawn. Weithiau dilynnir cyfnod o bwmpio dŵr gan gyfnod tawel. Cyfle yw hwn i'r arbenigwyr archwilio'r sefyllfa a phenderfynu ar y cam nesaf.

Ni ellir pwmpio 'chwaith tra mae'r JCB sydd wedi ei leoli ar lwyfan yn arnofio ar y dŵr yn gwneud ei waith (gweler llun).

Bydd yn rhaid rhoi'r gorau i'r pwmpio hefyd ar gyfnodau o lawogydd trwm pryd y buasai lefel Llyn Padarn yn codi'n ormodol.

Yn y dyfodol agos bydd y llyn wedi'i wagio ddigon fel y gellir dechrau ar y gwaith o'i ymuno â phwll Wellington drwy dynnu'r graig sy'n eu gwahanu ar hyn o bryd.



*Yn y llun gwelir y ddau fath o fomiau llaw a ddarganfuwyd yn Llyn Peris. Roedd bocsiaid o 50 o'r poteli (chwith) a thua hanner dwsin o'r math sydd ar y dde. (Llun trwy garedigrwydd Mr. Trefor Wyn Williams.)*

### APÊL BWYSIG

**Os oes unrhyw un o blith darllenwyr yr *Eco* yn gwybod rhywbeth o hanes y ffrwydryddion a ddarganfuwyd yn Llyn Peris a fuasai mor garedig â chysylltu â Mr. Trefor Wyn Williams, Swyddfa Glanrhonwy, Llanberis. Ffôn: Caernarfon 4101.**

# ECO'R WYDDFA

RHIF 30 HYDREF 1978

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon 3719)

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun.

**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis (Llanberis 220)

**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321) Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 3577)

**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen.

**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs. E. Evans, "Lloc," Llanrug.

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu a nhw yn eich ardaloedd

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth, (Portdinorwic 726)
BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
BRYNREFAIL: D.G.Ellis, Gweledfa, Brynrefail (Padarn 223)
CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)
CWM-Y-GLO: Mrs. Gwyneth Chick, 1 Tan y Bryn, Cwm-y-glo.
DEINIOLEN: Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont. (Llanberis 452).
DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)
LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)
NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)
PENISARWAUN: Leslie Larsen, Llygad yr Haul, (Llanberis 533)
TAN Y COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)



**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
***PEN CIGYDD Y FROI***
**Yr ŵyn lleol mwyaf blasus**
**Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta**
**Archebion ar gyfer y rhewgist**
**MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!**


# Llythyrau

## GANG TAI NÊW!



*1 Lawrence Court,*
*Corby,*
*Northants,*
*NN18 OSB.*

*Annwyl Olygydd,*

*Dyma lun o blant Dôl Elidir, Llanberis a gafodd ei dynnu gan fy mam. Dathlu coroni'r Frenhines Elizabeth (2 Mehefin 1953). Yn anffodus nid yw Jennie Morris – dyddiadurwraig yr Eco ynddo ond yr wyf yn siŵr y gall eich darllenwyr adnabod mwy na hanner y plant.*

*Yn gywir,*
*Helen Munro.*

*Rhes ôl: Derek–Dickie Jones, Raymond Jones, Jimmie Munro (fy mrawd), Brian Jones, Gomer Davies, Tom Williams. Rhes 5: Terry Maxwell, Ann Lewis, Valmai Jones, Mary Roberts, Rita Edwards, Joyce Foulkes, Olwen Jones, (Bryn ? yn ddwylo Tom), Rhes 4: Gareth Foulkes, Eilwen Rowlands, Diana Thomas, Helen Munro, Michael Griffiths, Emlyn Davies (T.V. Cymru), Christine Jones. Rhes 3: Valmai Davies (yn awr Corby), Meira Rowlands Leon Lambrecht, Gwyneth Rowlands, Ann Allen, Danny Roberts, Hefin Parry, Rhes 2: Sheila Allen, Gwyndaf Hughes, Desmond Davies (Llundain), Sheila Foulkes. Rhes 1: Barry Pritchard, Ann Pritchard, Betty Wyn Jones, Colin Jones, Roy Davies (Corby), Glyn Allen, Percy Allen.*

## RECORDIO YN Y FRO

*Annwyl Olygydd,*

*Yn ystod y misoedd nesa' bwriadwn ddarlledu rhai rhaglenni awr ginio o'ch hardal. 'Rydym eisoes wedi ein gwahodd i amryw o ganolfannau, cymdeithasau a gweithfeydd, ond rhag i ni ddiystyru unrhyw fudiad neu weithgareddau fyddai'n dymuno bod yn rhan o ddarllediad (fel cyfranwyr neu gynulleidfa) tybed gawn ni ofyn, drwy eich colofnau, i'w swyddogion gysylltu â ni yn fuan.*

*Bydd rhai o'r rhaglenni'n cael eu recordio ymlaen llaw, felly byddai'n hwylus cael gwybod ar ba noson y byddwch yn arfer cyfarfod, ymhle a beth yw rhai o'ch cynlluniau am y gaeaf.*

*Alwyn Samuel ac Ifan Roberts,*
*BBC, Bryn Meirion,*
*Bangor, Gwynedd.*

## RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf allan ar Hydref 26. Y deunydd i law'r golygyddion priodol erbyn Hydref 18, os gwelwch yn dda.


**AR WERTH.**

**PIANO mewn pren tywyll**
**GARD STOF drydan, 'Mothercare'**
**Yr holl GELFI SEFYDLOG ar gyfer gosod CAWOD mewn ystafell ymolchi.**
**Ymholiadau: Waunfawr 545**

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J Evans


## *PWY BIAU'R NYTH?*

*Annwyl Syr,*

*Diolch am yr ysgrifau blasus a'r amrywiaeth o berlau cain a disglair a gawn gennych yn* Eco'r Wyddfa.

*Ni wyddwn hyd yn ddiweddar mai Glan Rhyddallt oedd awdur yr adroddiad sydd mor addas i'r plant, sef 'Pwy biau'r Nyth?" 'Roedd gennyf feddwl y byd o Glan Rhyddallt. Edmygwn y ffordd y byddai yn gallu trin y gynghanedd mor naturiol a diymffrost. Yr oedd wedi ei gynysgaeddu â meddwl dwfn, ac yr oedd yn caru digrifwch yn ogystal â'r pethau clasurol.*

*Y mae dros drigain mlynedd er pan glywais yr adroddiad fach bert 'Pwy biau'r nyth?' yn cael ei hadrodd gan lu o blant yn Eisted Eisteddfod Pontrhythallt ac Annie fy chwaer yn eu plith. Y mae rhyw si yn dod ar donfeydd yr awel o'r gorffennol pell ac yn sibrwd yn fy nghlust mai dyma gampwaith bardd o fri. Yr oedd ganddo allu i gyfansoddi rhywbeth sydd wedi glynu yn ein heneidiau, yn blant ac oedolion drwy gydol oes. Anfonaf yr adroddiad i chwi er mwyn i blant yr oes hon gael cyfle i'w dysgu a'i chofio.*

*Yr eiddoch,*
*W.J. Jones,*
*Talymignedd Isaf,*
*Nantlle.*

### PWY BIAU'R NYTH?'

Bu cweryl ryw dro
Ym mhen ucha'r fro,
Rhwng wennol fach wisgi
Ac adar y to,
A dyma fel bu
Dan fondo y tŷ.

Fe fagai'r llwyd ei gywion
Yn hendre'r wennol dirion,
Pan ydoedd hi dros fôr a thraeth
Mewn hiraeth yng ngwlad estron.

Pan ddaeth y wennol fach
Yn ôl i'w nyth yn iach,
Beth welai ynddo ond
Ei lond o gywion bach!
A meistr a meistres Llwyd
Yn cario iddynt fwyd.

"Fy nyth i yw hwn," ebe'r wennol
Gan weiddi a neidio i'w canol.
"Ewch allan o'm parlwr
Y lladron â'ch cynnwr',
Allan â chwi! Allan â chwi!
Y fi – y fi biau 'mharlwr!"

Ar hyn daeth llwyd-y-to,
Eu tad, fel gŵr o'i go',
A'i blant yn cogor, cogor,
Fel llestri te mewn gogor,
A dwedodd, gan dafodi,
"Fi biau'r nyth eleni,
Mi ceis hi'n wag, heb fwy o lol,
Dos ymaith, wennol, ohoni!"

'Roedd nico penddu'n gwrando
Yn bendyn uwch y bondo:
A dwedodd, ar ôl sychu'i geg
"O, rhowch i wenni chwarae teg:
A chofiwch, ladron chwannog,
Orchymyn Duw trugarog,
Cyn rhoi eich traed ar unrhyw nyth –
"Na chwennych dy'th gymydog."

*Glan Rhyddallt.*

## GYDA DIOLCH

**Ein diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau haelionus:**
**£1: Mrs. Gwen Owens, Heol Ian, Llanrwst.**
**£1: Mrs. Bertie Williams, Warrington.**

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

## Y BARDD COCOS

'RWYN siŵr yr hoffech gael dipyn o hanes John Evans. Gelwid ef ar amryw o enwau, megis Bardd Tysilio; y Bardd Cocos; Archfardd; Cocysaidd Tywysogol; a chan ei gyfeillion 'yr Hen Fardd', meddai Alaw Ceris-yn ei lyfr 1923.

Ganwyd a magwyd y bardd cocos ym Mhorthaethwy, Sir Fôn. Ni wyddai ei oed yn iawn. Bernir iddo fod yn byw rhwng 1827 a 1895. Bu farw felly yn 68 mlwydd oed.

Brysiaf i ddweud wrthych mai ef a gyfansoddodd y pennill anfarwol i'r pedwar llew sy'n gwarchod Pont Britannia o Arfon i Fôn. Mae pawb yn gwybod y pennill:

**Pedwar llew tew**
**Heb ddim blew**
**Dau 'rochor yma**
**A dau 'rochor drew.**

Cyfieithiwyd y pennill fel hyn:

**Four lions fat, lying quite flat:**
**Two 'rochor this, and two 'rochor that.**

Cyfieithodd y diweddar Barch. Thomas Charles Williams, M.A., D.D. y pennill:

**Four fat lions without any hair,**
**Two over here and two over there.**

Er na wyddai'r hen fardd faint oedd ei oed yn iawn, yr oedd yn berffaith siŵr o'i enw medda' fo am ei fod wedi clywed ei fam yn dweud hynny lawer gwaith.

Nid oes ddadl nad oedd gan yr hen fardd ryw fath o dalent. 'Wnaeth o erioed geisio dynwared neb a fu o'i flaen! Yr oedd o'n hollol ar ei ben ei hun felly, heb reol na threfn. Nid oedd ganddo syniad am hyd pennill, yr oedd pob un yr un fath medda' fo. Gallai adrodd ei holl waith o'i gof. Cyfansoddodd lawer hefyd, er enghraifft, Marwnad i Danymarian Rhyfel Rwsia; Royal Charter; Mawredd y Great Eastern; Priodas y Prince of Wales; y Tarw Tew, ac ati. Ond y cwbl a wyddai am gynghanedd oedd hyn: fod raid cael dau air i odli, fel hardd a bardd. Gallai glywed clec yr odl. Ond dim arall.

Gelwid arno bob amser i fynd i fyny i'r llwyfan i gyfarch y bardd buddugol neu'r arweinydd mewn eisteddfodau. Yn ei farn ef ei hun, y fo oedd bardd mwyaf y byd.

Yn Eisteddfod Caernarfon un tro gwnaeth drawiad fel hyn ar y llwyfan:

**Chwi feirdd mawr**
**Yn y 'Steddfod fawr**
**Tydw i ond llwch y llawr**
**I chwi feirdd mawr.**

Yr oedd y gymeradwyaeth a'r chwerthin yn fyddarol!

Urddwyd y Bardd Cocos yn Archfardd Cocysaidd Tywysogol mewn cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghastell Dolbadarn ar ol Eisteddfod Caernarfon. Yr oedd llawer o feirdd da yno. Y peth cyntaf a wnaed oedd arwisgo'r Archfardd Cocysaidd Tywysogol gyda'r dillad rhyfeddaf a welodd neb erioed, sef, côt fawr dew o frethyn tywyll, a honno yn cyrraedd bron at ei draed. Gwisgai sanau golau. Ar ei ben yr oedd het o ffurf pot llaeth gyda chantel llydan. Ar flaen yr het yr oedd coron wedi ei haddurno gyda nyclis amryliw. Yn ôl rheolau y beirdd medda' fo yr oedd rhaid iddo wisgo'r siwt yma ym mhob eisteddfod ac yn enwedig yr Eisteddfod Genedlaethol. Rhaid fod y creadur bach yn toddi ar yr haul poeth ym mis Awst. 'Chwynodd o erioed. Fel hyn y dywedai, "Yr ydw' i wedi fy ngeni i'r gwaith yma".



JOHN EVANS
*(Yr Archfardd Cocysaidd Tywysogol)*

Bu am flynyddoedd yn ennill ei fywoliaeth trwy werthu peiswyn. Byddai'n canlyn y dyrnwr mawr o ffarm i ffarm ac yn prynu peiswyn am ryw dair ceiniog y sach. Ei rannu i sachau llai ar ôl mynd adra a chael pris reit dda amdanynt. Yr oedd ganddo drol a mul i gario'r peiswyn.

Yn ystod y tymor byddai'n gwerthu cocos. Dyna sut y cafodd yr enw. Gwerthai gocos ar y stryd ym Mangor a phob amser byddai cynulleidfa fawr o'i gwmpas. Gofynnodd un wraig iddo, "Have you got any more?" "Yes", meddai yntau gan feddwl ei bod yn gofyn oedd ganddo fôr i hel y cocos!

Y mae hanes y Bardd Cocos yn taflu goleuni ar dlodi yr oes o'r blaen mewn amrywiol ffyrdd. Dyma enghraifft o'i waith:

### CÂN Y GATH

**Y gath mi rydd frath:**
**Mae hi yn gynffonog, gronog,**
**Croeniog, ffroeniog, dihoeniog:**
**Mae hi ar ei cholyn yn un rholyn,**
**Yn watsio, ac yn catsio llygod yn llu,**
**Mae hi yn chwilotog, llygotog,**
**Gan chwilota o'r naill dwll i'r llall**
**Ac o'r naill dwll i'r llall**
**Ac o'r naill gornel i'r llall**
**Ac o'r cornel i'r cwpwrdd corneli**
**Ac ar ôl Neli, ac yn y môr heli**
**Y bydd diwedd Lowri.**

Dywedodd y Bardd Cocos fod ganddo fo hawl i dorri pob rheol ac i wneud englyn gyda phum llinell ynddo. Dyma'r englyn:

### Y DYRNWR MAWR

**"Y dyrnwr mawr, a'i dwrw mawr,**
**– o dan y wawr**
**Yn dyrnu ar lawr:**
**'Sgubau fydd o'n eu 'sgubo,**
**Mi fydd yn dyrnu'n lân,**
**Gan nerth power dŵr a thân...**

### CYFARCHIAD I'R BARDD COCOS

**"Oes helaeth i'r bardd Tysilio,**
**Arddel ei urddas a wnelo,**
**Hel y beirdd o'i ôl y bo,**
**A'r goron myned gario."**

Pwy?

CANU CAERNARFON

# Doniau'r fro ar record y Brifwyl

**Ar gais Pwyllgor Cyhoeddusrwydd Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon cytunodd Cwmni Recordiau Sain i gyhoeddi record hir ddwbwl o ddoniau cylch Caernarfon. Profodd y fenter yn hynod o lwyddiannus. Gwerthwyd nifer helaeth o gopiau ar faes Eisteddfod Caerdydd ac mae pobl yn tyrru o hyd i'w phrynu yn y siopau.**

**Gan fod nifer helaeth o artistiaid o fro *Eco'r Wyddfa* arni, dichon na fydd gwerthiant sylweddol iawn yn y siopau lleol. Bydd nifer fawr o aelodau'r corau, bandiau a'r partïon yn dymuno cael copi o'r record (neu'r casét) a gallant wneud hynny un ai o'u siopau lleol, neu gallant helpu'r ymgyrch i godi arian yn eu hardal eu hunain trwy gael record oddi wrth ysgrifennydd y Gronfa Leol.**

**Dyma ddywed I.B. Griffith amdani yn ei gyflwyniad:**

**"Nid canu 'steddfod sydd ar y record ardderchog hon ond yn hytrach canu ac adrodd o fro'r eisteddfod. Genod ni a hogia ni yn cyhoeddi fod yr Eisteddfod yn dod a bod lle braf yng Nghaernarfon a'r cylch...**

**Ymhen can mlynedd fe fydd y record hon yn drysor gwerthfawr, yn ddarlun o fro a chyfnod ac yn hyfrydwch i blant ein plant."**

**Clywir arni Seindorf Deiniolen a Llanberis yn chwarae 'Fron Deg' a Seindorf Llanrug ynghyd â Seindorf Nantlle yn chwarae trefniant o Llwyn Onn. Ysgrifennodd Rol Williams eiriau am Cwm-y-glo R.S.O. (Rural Sorting Office) a chyfansoddodd Myrddin a Rosalind alaw ysgafn hyfryd ar y geiriau. Rhaid crybwyll Parti Eryri gan fod nifer o'r ardal â chysylltiad â'r parti poblogaidd hwn. Eu cyfraniad nhw yw 'Croeso i'r Eisteddfod'. Clywir arni hefyd Dafydd Iwan o'r Waunfawr yn canu 'Cân Steddfod '79'; Bil ac Ann Evans o Fethel gyda'u trefniant ffidil a thelyn o dair alaw werin a Hogia'r Wyddfa gyda'u cyfansoddiad eu hunain o eiriau R. Bryn Williams (cynarchdderwydd) 'Gwaun Cwm Brwynog'. Mae sawl un o'r fro yn perthyn i Barti Alawon Menai. Canant hwy ddetholiad o gywydd 'I Gofio Syr Thomas'. Ymhyfrydwn yn y ffaith fod llawer o'r fro yn aelodau o Gôr Meibion Caernarfon a chlywir hwy yn canu 'Dychwelyd'.**

**Dengys y record arbennig hon fod talent ddihafal yn y fro. Yn wir, gallwn ymfalchïo yn y ffaith ei bod ymhlith y broydd mwyaf talentog yng Nghymru.**

**Dyma restr o artistiaid eraill sy'n cael eu cynnwys ar y record: Parti Lleu; Martin Lane; Elinor Bennett: Einir Wyn Owen; Côr Glannau Llyfnwy; Brian Owen; John Huw Davies; Parti Llethrau'r Cilgwyn; Telynores Eryri; Richard Hughes y Co Bach; Maldwyn Parry; Hogia'r Deulyn; Parti'r Bryniau; Crysbas; Eleri Llwyd; Robert Wyn; Leah Owen a Chôr Meibion Dyffryn Nantlle.**


**R.Hughes Jones a'r Mab**

Cigyddion
BRYN AFON, CRAWIA
**LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3188



CIG BLASUS I'R RHEWGELL
PRISIAU CYSTADLEUOL
DIGON O DDEWIS, LLE HWYLUS I BARCIO

# LLANRUG

CRONFA RIGARUG – Trefnir Taith Feiciau Noddedig i gychwyn o Ben Bont fore Sadwrn, Hydref 7 am 10 o'r gloch. Bydd hon yn daith o rhyw 12 milltir o gwmpas ffyrdd cefn yr ardal. Ffurflenni i'w cael gan: Olwen Huws, Afon Rhos, Sian Williams, Cartref; Dafydd Thomas, Bron-y-Nant a Beth Anne Williams, Disgwylfa.
Gobeithir trefnu disco i'r plant dan 12 oed ar Nos Calan Gaeaf, Hydref 31. Yn ystod y noson bydd cystadleuaeth gwisgo het gwrach.
Ym mis Tachwedd cynhelir Ffair Gaeaf a 'Bwffe ac Adloniant' – mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

MERCHED Y WAWR – Agorwyd y tymor newydd gyda Noson Goffi yn Festri Capel Mawr, nos Fawrth, Medi 12. Dechreuodd y llywydd newydd Mrs Nansi Lovatt ar ei gwaith. Trefnwyd cyngerdd gan Barti Adloniant y gangen tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn Ysgol Brynrefail nos Iau, Medi 21.

Y SEINDORF – Nos Wener, Medi 15 cafwyd Helfa Drysor wedi ei threfnu gan Arwel a Carys Jones, Ian ac Eirlys Pierce. Yr enillwyr oedd: 1) Car Clifford Williams, Awelon; 2) Car Raymond Jones, 2 Bryn Fedwen; 3) Car Gareth Hughes o Lanberis. Terry Lloyd Jones, Llys Elen a'i gyddeithwyr gafodd y 'booby'. Enillwyd y raffl gan Mrs. Gaynor Williams Penterfyn.
Cymerwyd rhan gan y seindorf yng Nghyngerdd Merched y Wawr tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol. Ar hyn o bryd maent yn ymarfer ar gyfer dwy gystadleuaeth, y rownd derfynol yng nghystadleuaeth Pontin's, Prestatyn ar Tachwedd 4, a chystadleuaeth arall yn Connah's Quay ar Tachwedd 25. Dymunwn bob llwyddiant iddynt.

LLWYDDIANT CERDDOROL – Bu Siân Wyn Jones yn llwyddiannus mewn arholiad theori (Gradd 1) a Keith Jones mewn arholiad theori (Gradd 2). Eu hathrawes yw Mrs. Roberta Griffith, Bod Elwy, Ffordd yr Orsaf.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Bydd cyfarfod cyntaf y tymor, nos Fawrth, Hydref 24 yn Festri Pontrhythallt am 7 o'r gloch. Cymerir rhan gan Dilys ac Ilid o Gaernarfon. Croesewir aelodau newydd. Y swyddogion am y tymor yw: Llywydd: Mrs M. Lloyd Williams, Trysorydd: Mr Ifor Williams, Gwelfryn, Ysgrifenyddes: Mrs E. Wh. Thomas, Dolwar.

BABAN NEWYDD – Llongyfarchiadau i Hefin a Linda Jones, Pant Mwyn ar enedigaeth merch fach, Luned, chwaer i Menna a Bryn.

CROESO ADREF – o Ysbyty Dewi Sant i Rhiannon Iola, merch fach Peter a Nia Hughes, Graianfryn, Ffordd yr Orsaf.

LLWYDDIANT – Dymuna'r ardal longyfarch dwy chwaer ieuanc o Birmingham sydd â'u gwreiddiau yn yr ardal hon sef merched y Parch. a Mrs Tudor Owen a wyresau Mr D. Glynne Owen a'r ddiweddar Mrs Menai Owen, Llys Eryri. Llwyddodd Siân Tudur Owen i gwblhau ei chwrs yng Ngholeg Caerdydd ac apwyntiwyd hi'n Llyfrgellydd yn Birmingham. Cafodd ei chwaer Ann Tudur Owen ei hapwyntio ar staff BBC Caerdydd.

RHODDION I'R EGLWYS – Derbyniwyd rhodd o £20 tuag at gronfa atgyweirio Eglwys Sant Mihangel gan Mrs M.E. Shilton, Tanycoed a £5 gan un sy'n dymuno bod yn ddienw. Gwerthfawrogwn y rhoddion hyn yn fawr iawn.

DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAEAF – Cynhelir gwasanaethau Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn Eglwys Sant Mihangel ar ddydd Sul, Hydref 8 a Llun Hydref 9. Y pregethwyr gwadd fydd y Parch. Ganon A. Rice Jones, Ficer Porthmadog a'r Parch. F.M. Jones, Ficer Llanbedrog.

TRIP UNDEB Y MAMAU – Aeth yr aelodau a'u cyfeillion ar daith dros Fwlch Llanberis, Dyffryn Lledr, Bwlch Gorddinan, Blaenau Ffestiniog a thrwy Dyffryn Maentwrog i Westy'r Pantana yng Ngarndolbenmaen lle yr oedd pryd wedi ei baratoi. Ar y datih ymwelwyd â'r gwaith Gwneud Canhwyllau yn Llan Ffestiniog. Mwynhaodd pawb eu hunain er gwaethaf y tywydd anffafriol.

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Awst 24 yn Eglwys Sant Mihangel priodwyd Janet Elizabeth Williams, merch Mrs. B. Williams a'r diweddar Mr. R. Williams, Gwydryn Newydd gyda Mr Dewi Wyn Jones, mab Mr a Mrs Jones o Borthaethwy. Gwasanaethwyd arni gan chwaer y priodfab a'r gwas priodas oedd ffrind i'r priodfab. Rhoddwyd y briodferch i'w gŵr gan ei brawd Gareth. Y Rheithor a weinyddai'r briodas. Yr organydd oedd Mr J.T. Morris. Yr oedd nifer fawr o wahoddedigion yn y wledd yng Ngwesty Stablau, Plas Ffynnon, Llanwnda. Byddant yn cartrefu ym Manceinion. Dymunwn bob bendith a hawddfyd yn eu bywyd newydd.

GWAELEDD – Da yw deall fod Mr M Lloyd Jones, Bro Rhyddallt yn gwella ar ôl triniaeth feddygol mewn ysbyty a'i fod wedi cael dod adref. Deallwn hefyd fod Mr G. Morris, 18 Glanmoelyn yn aros galwad i Ysbyty Gobowen i dderbyn triniaeth arall ac yn Ysbyty Bryn Seiont y mae Mr O. Morris, Erw Hywel. Y mae Mrs Griffiths, Orwig House yn gwella ar ôl cyfnod o anhwylder a Mrs Watson, Rhos Rug wedi cael adferiad ar ôl damwain flin i'w throed.

MARW – Pan ar fynd i'r wasg clywsom am farw Mr Robert Jones, gynt o Idan House, Llanrug (Bob y Barbwr). Bydd gennym fwy o fanylion yn y rhifyn nesaf. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu yn eu galar.

YN GWELLA – Ein dymuniadau gorau am adferiad llwyr i Mr Walter Evans, Dolwen a gafodd ei daro'n wael a'i gipio i'r ysbyty tra ar ei wyliau yn Weston-Super-Mare. 'Rydym yn falch o ddeall ei fod gartref 'nawr ac yn gwella'n foddhaol.

LLONGYFARCHION PEN–BLWYDD – Bydd Mrs S.L. Jones, 8 Glanmoelyn a Mrs Williams, Llys Meirion yn dathlu eu pen-blwydd yn bedwar ugain mlwydd oed ar Tachwedd 1. Dymunwn iechyd a hapusrwydd i'r ddwy am flynyddoedd lawer eto.

CAPEL MAWR – Yn oedfa'r bore, Medi 3, a'r gweinidog y Parch. W.O. Roberts yn gweinyddu, bedyddiwyd Kenny Wyn, mab Mr a Mrs Gwilym Griffith, Pant Tirion.
Estynnwyd croeso i nifer o blant yr eglwys oedd ar ymweliad â'r ardal. Yn eu plith 'roedd Mr a Mrs Moi Parry o Ganada – mab a merch-yng-nghyfraith i'r ddiweddar Mrs Hannah Parry, Fron Haul.
Croesawyd Miss Olwen Hughes Jones, Bryn Afon yn ôl i'r eglwys, a darllenwyd ei Llythyr Cyflwyniad oddi wrth yr Eglwys Fethodistaidd ym Mae Colwyn.
Llongyfarchwyd Mr Gareth Parry, Bryn Heli ar ennill gradd B.Sc. gydag anrhydedd, Mr Richard Ellis Owen, Bryn Maen ar ennill gradd B.A. yn y gyfraith gydag anrhydedd a Mr Richard A. Roberts, Gwyndy ar gwblhau ei gwrs yng Ngholeg Cartrefle, Wrecsam a derbyn swydd fel athro yn Fflint.
Cyfeiriwyd at lwyddiant y rhai canlynol yn arholiadau TAU, Lefel A. Gwyn Thomas a Gwenda Jones. Lefel O Karen Jones, Gwenan Griffith, Einir Owen, Caron Owen, Carol Anne Jones a Gareth Lloyd Roberts.

CYDYMDEIMLAD Â CHWAER EGLWYS – Wrth Fwrdd y Cymun Bendigaid nos Sul, Medi 3, cyfeiriodd y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts at y golled fawr a gafodd yr ardal a Chymru gyfan ym marwolaeth annisgwyl y Parch. George W. Brewer, gweinidog yr Eglwys Fethodistaidd yn y pentref. Safodd y gynulleidfa ar ei thraed fel arwydd o barch i Mr. Brewer ac o gydymdeimlad ag Eglwys Hermon yn eu colled fawr.

HANNER CANRIF O BREGETHU'R EFENGYL – Yn yr oedfa nos Sul, Medi 17 yng Nghapel Pontrhythallt llongyfarchodd y gweinidog Mrs Mary Lloyd Williams, Llys Awen ar gyrraedd ohoni hanner can-mlynedd fel Pregethwr Cynorthwyol gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Diolchwyd am ei gwasanaeth gwerthfawr a dymunwyd arni fendith Duw i'r dyfodol.

SASIWN CHWIORYDD ARFON – Dydd Mercher, Medi 13, cynhaliwyd y Sasiwn yng Nghapel Mawr, Llanrug. Dechreuwyd cyfarfod y prynhawn gan Mrs Bayliss, Llanberis. Anerchwyd gan Miss Gwyneth Evans, Cricieth, a llywyddwyd gan Mrs W.O. Roberts. Agorwyd cyfarfod yr hwyr gan Miss Megan Humphreys, Cadnant. Anerchwyd gan y Parch. O.W. Owen, Abergele a llywyddwyd gan Miss K. Jones, Bangor. Mrs Whiteside Thomas, Dolwar a Mrs Nesta Pritchard, Glanfa oedd yn gofalu am y canu a'r organyddes oedd Mrs Jones, Ogwen.

MARW – Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Griffith, Gilfach, Ffordd Glanffynnon. Ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod Mr. H. Griffith, ei merch Helen a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

TWMPATH DAWNS – Nos Iau, Hydref 26 yn Neuadd Ysgol Brynrefail, cynhelir Twmpath Dawns gydag Idwal Williams yn galw.

# BRYN REFAIL



*Hwyl a sbri yng Ngharnifal Brynrefail.*

BEDYDD – Ar Awst 27 bedyddiwyd Darren Wyn Williams, mab Mr John Selwyn a Mrs Sheila Williams, Bryn Hyfryd. Gweinyddwyd gan y Parch. W. Bryn Roberts (cyn-weinidog Eglwys M.C. Brynrefail). Mrs. Freda Bonner-Barlow oedd y fam fedydd gyda dau dad bedydd, sef Percy a Kevin Allen (brodyr Mrs Williams). 'Roedd amryw o'r teulu yn bresennol yn y gwasanaeth a dathlwyd yr achlysur gyda brecwast yn y Festri. Dymuna Mr a Mrs Williams ddiolch i'r teulu a chymdogion, a hefyd i'r Capel am eu gwasanaeth a'u caredigrwydd.

YMWELIAD – Ar Medi 4 cychwynnodd Mr a Mrs Owen Jeffrey Williams ar eu taith i America. Maent yn ymweld â'u mab, a'u merch-yng-nghyfraith, Bryn a Lorraine, sydd bellach wedi cartrefu yn Georgia. Disgwylir Mr a Mrs Williams yn ôl i Frynrefail ar Hydref 29.

YN YR YSBYTY – Mrs Doreen Williams, 9 Tremeilian. Dymunwn adferiad buan i Mrs. Williams.

GARTREF O'R YSBYTY – Llawenydd yw deall fod Mrs Eifiona Jones, Bron Eryri wedi dychwelyd gartref o'r ysbyty. Bydded iddi lwyr wella yn fuan.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Awst 26 ymwelwyd a Llandudno. Wedi treulio'r prynhawn yn y siopau cafwyd noson ddifyr yn Theatr yr Arcadia.

CLWB PEDWAR UGAIN – Enillwyr y mis:
AWST 4: 1) Shirley Robert, 1 Minffordd; 2) Ann Jones, 1 Tremeilian; 3) Elwyn Jones, 1 Tremeilian.
AWST 11: 1) Mary Roberts, Penllyn; 2) Huw Evans, Min-y-Don; 3) Geraint Roberts, Geraud.
AWST 18: 1) Pat Jones, Cae Coch; 2) Meurig Jones, Deiniolen; 3) Carol Houston, 2 Tremeilian. AWST 25: 1) Eurwyn Williams, Llwyncoed; 2) Jinnie Roberts, Glandwr; 3) Maldwyn Jones, 1 Tai Orwig.

CLWB Y MAMAU – Medi 14 cafwyd cyfarfod cynta'r tymor pan drefnwyd rhaglen am y tymor ac etholwyd y swyddogion sef: llywydd: Mrs Rhian Jones, 3 Tremeilian; ysgrifennydd: Mrs Jackie Jones, 1 Tai Orwig; trysorydd: Mrs Audrey Roberts, Geraud.


E.&E.M.
GREEN

SIOP
GRON

A SWYDDFA'R POST

PENISARWAUN

Ffôn: PADARN 272

NWYDDAU GROSER
FFRWYTHAU A LLYSIAU
FFRES

# BETHEL

MERCHED Y WAWR – Nos Fercher, Medi 13 fe agorwyd tymor newydd Merched y Wawr. Fe gafwyd cyngerdd llwyddiannus gyda nifer dda yn bresennol i glywed eitemau gan Barti Glannau Menai o'r Felinheli. Nos Fercher, Hydref 11 bydd Mr. Iorwerth Hughes, Llys Gwynedd yn rhoi sgwrs ar lefrith.

BEDYDDÏO – Dydd Sul, Medi 10 yng nghapel Bethel bedyddiwyd Gethin, mab Mr a Mrs Emyr Wyn Jones, Wenallt gyda'r Parch. Eryl Ll. Davies yn gweinyddu.

DOSBARTHIADAU NOS – Mae dau ddosbarth nos yn cael eu trefnu yn yr Ysgol eleni. Mae dosbarth gwnïo dan ofal Mrs Margaret Hughes, 6 Bro Rhos wedi dechrau ers nos Lun, Medi 18 ac mae'r dosbarth cadw'n ystwyth a gynhaliwyd yn y Neuadd y llynedd wedi dechrau yn yr Ysgol, nos Iau, Medi 28.

DERBYN YN GYFLAWN AELODAU – Yn y gwasanaeth yng nghapel Bethel nos Sul, Medi 10 fe dderbyniwyd pymtheg o blant yr eglwys yn gyflawn aelodau gan y Parch. Eryl Ll. Davies. Derbyniwyd Eleri Hughes, Twll Clawdd; Gwen Williams, Llain yr Ardd; Meirion Jones, Arosfa; Gareth Davies, Trem Eryri; Helen Owen, Bron Meillion; Howela Jones, 32 Bro Rhos; Jacqueline Baily, Tan y Ffordd; Helen Mai Owen; Linda Jones, 1 Cremlyn; Iona, Geraint a Meirion Jones, Llyfnwy; Colin Humphreys, Is Helen; Glyn Jones, Eryri; ac Alan Owen, Bron Meillion.

PRIODI – Ddydd Sadwrn Medi 2 yn Eglwys Llanddeiniolen fe briodwyd Miss Sandra Evans, merch Mr a Mrs Derick Evans, 28 Bro Rhos a Mr Brian Parry, mab Mr a Mrs. D. Parry, 4 Bro Waun, Waunfawr. Dymunwn y gorau i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

YR URDD – Nos Wener, Hydref 6 bydd tymor y gaeaf yr Urdd yn agor. Ar y noson gyntaf bydd tâl aelodaeth o 30c y pen yn cael ei gasglu. Hydref 13 fe ddangosir ffilmiau a nos Wener, Hydref 20 a nos Wener, Hydref 27 fe gynhelir cystadleuthau ysgrifenedig ac arlunio ar gyfer Eisteddfod Bethel. Bydd croeso i bawb, aelodau'r Urdd ac eraill i ddod i'r Neuadd ar gyfer cystadleuthau'r Eisteddfod.

LLONGYFARCHIADAU – i David Hughes, Twll Clawdd, Llanrug a Kevin W. Williams, Carneddi ar gyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed. 'Roedd David yn cael ei ben-blwydd ar Fedi 17 a bydd Kevin yn ddeunaw ar Hydref 1.

CLWB 100 – Enillwyr y Clwb 100 mis Medi oedd: 1) Mr. Gwynfor Ellis, 2 Eryri – £20; 2) Mrs. E.M. Morgan, 8 Cremlyn – £10; 3) Mrs. L.M. Mill, 5 Caerhos, Seion – £5 a Mr. R. Hughes, 6 Bro Rhos – £5.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL – Nos Fercher, Tachwedd 1 bydd nifer o wragedd y pentref – a hwyrach gwŷr hefyd, yn brysur yn gweu sgwariau yn yr ysgol. Fe gynhelir noson o weu gyda phob un fydd yn cymryd rhan yn cael ei nawddogi am bob sgwâr fydd yn ei weu. Gofynnir i unrhyw un sydd am gymryd rhan yn y noson gael ffurflen gasglu noddwyr gan Mrs Nan Owen, Berwyn, neu Mrs Mair Price, Tan y Ffordd. Ar ôl gorffen bydd y sgwariau yn cael eu gwnïo gyda'i gilydd i wneud planced i'w rhoi ar raffl mewn Ffair ym mis Rhagfyr.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Bydd tymor y Gymdeithas yn agor nos Iau, Hydref 26 gyda noson o adloniant gan barti o Ddinorwig yn Festri Bethel. Bydd y noson yn agored i aelodau ac eraill. Gobeithio y ceir cynulleidfa dda i agor y tymor.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Charles Peters, Tŷ'r Eglwys ar enedigaeth mab, Richard Stuart a hefyd i Mr a Mrs A.L. Griffith, 37 Bro Rhos ar enedigaeth plentyn.

CLWB Y RHOS – Nos Lun, Hydref 9 bydd noson gyntaf y tymor yng Nghlwb y Rhos yng ngofal Mr Alun Jones, Stad y Ddol. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 7.30 o'r gloch.

PROFION GYRRU BEIC YN YR YSGOL – C.R. Jones, Richard Evans, Neil Jones, Alan Williams, Adam Mumford, Paul Williams, Mark Owen, P.C. Oscar Evans (Hyfforddwr).

David Roberts, Paula Bull, Karen Evans, Sarah Morgan, Janet Pritchard, Awen Jones, Gwenno Bebb, Peter Sharpe, Gareth Hughes, Chris Peters.

Y plant lwyddodd yn yr arholiad beicio gyda'u tystysgrifau cyn gadael yr ysgol.

CÔR ADRODD Y RHOS – Mrs Nan Owen, Berwyn yn cyflwyno torch o flodau i Mrs Mary Wyn Jones, 9 y Rhos hyfforddwr Parti Cydadrodd Y Rhos ar ddiwedd eu tymor. Dymunwn bob llwyddiant i'r parti yn ystod tymor y gaeaf.



PWYLLGOR Y NEUADD – Nos Wener, Medi 22 ym mhwyllgor y Neuadd derbyniwyd ymddiswyddiad y Cadeirydd, Mr. Islwyn Jones. Dewiswyd y swyddogion canlynol i'r pwyllgor: Cadeirydd: Mr. Goronwy Jones; Trysorydd: Mr. Seiriol Owen; Ysgrifennydd: Mr. Geraint Elis.

Penderfynwyd cynnal Cyfarfod Cyhoeddus yn y Neuadd am 7.30 nos Wener Hydref 13 i egluro'r cynlluniau sydd ar droed i wella'r Neuadd.

# NANT PERIS

DYMUNIADAU DA – i Alwyn S. ac Elwyn S. Jones, Dwyfor ar ddechrau eu cwrs yng Ngholeg Glynllifon. Dymunwn i'r ddau bob llwyddiant yn eu gwaith yn y dyfodol.

DEFNYDDIO EI DONIAU – er budd i eraill a wna Mrs Marion Williams o Swydd Lonarth yn yr Alban. I ni yn y Nant gwraig Billy John yw Mrs Williams. Ar ôl colli ei nai oedd yn dioddef o leukaemia aeth Mrs Williams ati i godi arian i Gronfa Ymchwil i'r afiechyd drwy gynnal cyngherddau yn yr Alban. O fis Tachwedd 1977 i fis Gorffennaf eleni cynhaliodd 50 o gyngherddau mewn clybiau a neuaddau yn yr ardaloedd o gwmpas ei chartref. Ym mis Gorffennaf anfonodd siec am £1000 i Adran Ymchwil leukaemia i Ysbyty Môn ac Arfon. Ar wahân cododd £500 at Adrannau Ymchwil y Galon ac achosion eraill. Gobeithia yn awr gynnal un cyngerdd y flwyddyn i godi arian i Adran Ymchwil Leukaemia a'i gobaith yw y bydd yr hyn y mae hi yn ei wneud yn gymorth i eraill gael iachad. Enw llwyfan Mrs Williams yw Marion Martell a dyma ddarlun ohoni gyda'r siec i'r Gronfa Ymchwil.



Dymunwn iddi bob llwyddiant i'r dyfodol yn y gwaith ardderchog y mae yn ei gyflawni a diolch iddi am ddefnyddio ei llais a'i dawn er bendith i rai llai ffodus yn ein cymdeithas.

CROESO ADREF – o'r ysbyty i Mr. Alun W. Hughes, Hafod Gynfor. Da gennym ddeall ei fod yn gwella yn foddhaol ac y cawn ei weld o gwmpas yn fuan wedi cael llwyr adferiad.

CLWB IEUENCTID – Nos Wener, Medi 22 cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Clwb dan ofal yr arweinydd, Mr. Irfon Owen, i drefnu gweithgareddau'r gaeaf a dewis swyddogion am y tymor 1978/79 Trysorydd: Siân Williams, Ysgrifennydd: Hilda Jones. Pwyllgor: Cadeirydd: John Noel Pritchard, David John Pritchard, Iwan Wyn Pritchard, Julie Rutherford, Emlyn Jones a Hefin Wyn Pritchard.

## O'R GENEDLAETHOL

# At y Dysgwyr

Y mae dysgwyr, sy'n amrywio o Dad Pabyddol i dwrnai, yn cael blas ar bwyllgora yng Nghaernarfon y dyddiau hyn drwy baratoi ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn y dref y flwyddyn nesaf.

Cadeirydd Pwyllgor Dysgwyr yr Eisteddfod yw Gareth Haulfryn, sy'n gweithio yn Archifdy Gwynedd a dywedodd ef wrthym fod yr ymateb o du dysgwyr cylch Caernarfon yn addawol iawn.

"Ar ein pwyllgor", meddai, "y mae gennym ddysgwyr o bob math o alwedigaethau yn cynnwys deintydd, gwraig tŷ, swyddog llywodraeth leol, twrnai a Thad Pabyddol a phan drefnwyd parti caws a gwin gennym yn ddiweddar gwerthwyd 200 o docynnau heb drafferth o gwbl a bu'n rhaid gwrthod rhai pobl gan nad oedd lle iddynt.

Caiff y dysgwyr yr un sylw anrhydeddus yng Nghaernarfon ac a gawsant yng Nghaerdydd gyda'r babell a luniwyd gan y dysgwyr o bensaer, Cen Cên, ar gyfer Caerdydd yn disgwyl cael ei chludo i dre'r Cofi. Mae yna gystadlaethau arbennig i ddysgwyr hefyd, er enghraifft:

1) Rhaglen nodwedd tua 15 munud ar dâp gan un neu fwy o ddysgwyr. Testun: 'Ein Bro'. Gwobr: £30 i'w rannu.

2) Traethawd tua mil o eiriau ar waith proffesiynol, crefft, neu hobi'r cystadleuydd. Gwobr: £20 i'w rannu.

Mae yna gystadelaethau i ddysgwyr wedi cael eu gosod gan bwyllgorau eraill hefyd – yn arbennig yn adrannau adrodd a cherddoriaeth.

Gwaith pwysica'r pwyllgor Dysgwyr hyd yn hyn fu llunio cystadlaethau ar gyfer y Rhestr Testunau a gyda hanner y pwyllgor yn ddysgwyr, dywedodd Gareth Haulfryn fod pwyllgora ei hun yn fath o 'wers' answyddogol iddynt a'u bod yn cael mwynhad mawr.

Ysgrifennydd y pwyllgor yw Nona Breese a'r is-gadeirydd yw Dr. Thompson, sy'n feddyg yn Stryd y Farchnad, Caernarfon.

Ymhlith y cynlluniadau ar gyfer y dyfodol y mae ysgol benwythnos gan Fudiad Addysg y Gweithwyr tua'r Pasg nesaf, yn egluro beth yn union yw'r Eisteddfod a beth yw ei chefndir a'i hanes, yn ogystal â bod yn gyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg.

Mae
WIL a VAL GUY
perchnogion newydd
siop fwydydd, melysion a diodydd

Treflyn Stores
BETHEL

Ffôn : Y Felinheli 670237

yn croesawu cwsmeriaid
hen a newydd

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## SUSAN YN COFIO GWLAD BELG

Roeddem i fod o flaen yr ysgol erbyn chwarter i bump er mwyn cael cychwyn yn union bump. Daeth pawb mewn pryd ac i ffwrdd â ni. Roeddem yn chwerthin a chanu ar y bws. Buom yn aros am ysbaid yn Gailey a Farthing Corner cyn cyrraedd Dover a mynd ar y llong am Calais oddi yno. Teithio yn syth o'r llong, drwy Ffrainc, a chyrraedd ein gwesty, Ter Meeuwenhof, yn Bredene.

Wedi mynd i mewn i'r gwesty cawsom allweddau ein hystafelloedd. Aethom iddynt i gadw ein pethau cyn mynd i lawr y grisiau i gael ein swper. Yna aethom allan i weld 'Eglwys agored'. Roedd yna gadeiriau o gwmpas a lle arbennig i wella pobl. Yna aethom i mewn i'r gwesty unwaith eto. Rhoddodd y genethod recordiau ymlaen tra'r oedd y bechgyn yn chwarae pêl-droed yn yr ystafell gyfagos. I'r gwely wedyn, ond nid i gysgu. Cawsom lawer o hwyl, ond ychydig o orffwys.

Bore wedyn, wedi cael brecwast a pharatoi ein hunain, cawsom fynd allan i weld y melinau gwynt. Yna ar long fechan i weld ynys ac arni bentref wedi ei adeiladu o fodelau. Cawsom ginio yno ac yna mynd o'i hamgylch i weld y tai bychain, eglwysi, ysgolion a siopau. Yn ôl ar y bws wedyn a chadw ein anrhegion yn ofalus. Aeth bws â ni i'r Iseldiroedd a chawsom fynd i'r farchnad yno. Bu Glyn a Richard ar y teledu yno. Ateb cwestiynau i bobl yr ysbytai gael eu gweld a'u clywed. Buom yn prynu mwy o anrhegion yn y farchnad ac aethom â hwy i'r bws. Yna yn ôl i Belg.

Cyn cyrraedd yn ôl bu raid i'r oedolion fynd allan i ddangos eu trwyddedi teithio. Wedi cyrraedd y gwesty aeth y rhan fwyaf ohonom i'n hystafelloedd i newid erbyn swper am saith o'r gloch. Wedi swper cawsom Noson Lawen yng nghwmpeini nifer o blant o'r Alban oedd yn aros yno. Buom ni'n canu iddynt yn Gymraeg a hwythau yn actio a dweud storïau digri wrthym ni. Aeth pawb i'r gwely wedyn. Roedd Janet wedi dod â phaced o fisgedi gyda hi ac roedd Louise wedi taro ei choes ym mhost y gwely. Cynigiodd Janet fisged iddi a dyma Louise yn cicio'r paced ar y llawr. Roedd bron yn hanner awr wedi un arnom yn mynd i gysgu.

Y diwrnod olaf roedd Mr. Gruffydd wedi ein rhannu rhwng yr athrawon. Roeddwn i, genethod fy ystafell a thair o enethod o Fethel yng ngofal Miss Bethan a Miss Mai Parry. Aethant â ni i Brugge. Buom o gwmpas y siopau ac yna yn gweld yr Eglwys Gadeiriol, cyn dychwelyd i'r gwesty am ein cinio.

Wedi ciniawa aethom ar y bws unwaith eto a chael ein cludo i Ostende. Yno cawsom gyfle i wneud mwy o siopio a phrynu mwy o anrhegion. Bob tro y gwelai Miss Mai Parry siopau bwyd roedd yn closio at y ffenestr. Buan y daeth yr amser i fynd yn ôl am y gwesty. Yno y cawsom ein swper am y tro olaf yng ngwlad Belg. Adeg bwyd, os oeddem wedi gadael rhywbeth heb ei fwyta, byddai'r coginwyr yn siŵr o wneud hynny. Cawsom ddawns arall wedi hyn ac ynddi dywedodd Mr. Gruffydd wrthym fod yn rhaid mynd i'r gwely erbyn deg y noson honno, gan fod taith fawr o'n blaen y dydd dilynol. Roedd yn hanner awr wedi naw erbyn hyn, felly chwaraeasom am hanner awr cyn troi am y gwely.

Roedd prysurdeb mawr y bore olaf. Pawb wedi cysgu yn hwyr a llawer o waith casglu pethau at ei gilydd heb sôn am ymolchi a newid ein dillad. Wedi cael brecwast da aethom i gyd i'r bws, ac wedi ffarwelio â'r gwestywr, cychwyn ar ein taith tuag adref. Roedd pawb yn gysglyd am ein bod wedi codi mor fore a buom yn cysgu llawer ar y ffordd. Ymhen amser arhosodd y bws a chawsom gyfle i fwyta ein cinio a mynd allan i gael awyr iach. Yna yn ôl i'r bws a chwblhau y daith yn ôl i Loegr.

Tua phedwar o'r gloch roeddem yn gyrru drwy strydoedd Llundain a chawsom gyfle i dynnu lluniau, drwy ffenestr y bws. Gwelsom St. Paul's, Buckingham Palace a Big Ben.

Tua saith o'r gloch fe arhosodd y bws a chafodd pawb fynd i dŷ bwyta a chael pryd da o sglodion tatws ac ŵy wedi'i ffrio. Cawsom gyfle wedyn i dynnu ein lluniau. Cefais i dynnu fy llun gyda Mr. Huws a Louise. Roeddem yn ôl yn Llanrug erbyn hanner awr wedi deg, a'n mamau yno yn ein disgwyl. Roeddem wedi blino yn lân ond wedi mwynhau ein hunain yn fawr iawn.

Susan Morris.

## YSGOL BRYNREFAIL

Dydd Sadwrn, Medi 16, bu criw o thua pymtheg o'r ysgol ar daith fynydda i fyny'r Wyddfa, gan gychwyn o Rhyd-ddu a gorffen yn Llanberis. Yr oedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod, er iddi fwrw y rhan fwyaf o'r amser! Arweinydd y daith oedd Dr. Prys Jones, gyda Mr. Gomer Davies Mr. Eurwyn Morris a Mrs. Katherine Owen i'w gynorthwyo.

## GAYNEY GRIFFITH EVANS

Yr oedd y ddiweddar Mrs. Gayney Griffith Evans neu Gayney Weirglodd Ddu, Nant Peris, yn soprano enwog yn ei dydd. Bu farw yn 92 mlwydd oed a chladdwyd hi ym mynwent Nant Peris ar y 5ed o Ragfyr 1942. Yr oedd ganddi lais peraidd a swynol tu hwnt meddai fy nhad. Un tro yr oedd yn canu yn Amlwch ac yr oedd Alafon yno yn gwrando. Lluniodd englyn iddi fel hyn:

Gayney deg, dy ganu di – yn Amlwch
I 'nheimlad sy'n ddigri:
Gwefr enaid a gyfrenni
A rhed ias hyd fy nhraed i!

*Alafon*

Fel hyn y canodd fy nhad i gofio amdani:

Yr Arglwydd o'r Weirglodd Ddu –
gynt yrodd
Gantores i Gymru:
Un bur ei llais: bwy o'r llu
Heriai Gaynor i ganu?

*Glan Rhyddallt*

Bydded hedd lle y gorwedda –
ynghwsg
Yng nghysgod yr Wyddfa;
Ei hynod a'i hoff enw da
Caddug y bedd nis cuddia.

*Glan Rhyddallt*

## YSGOL BETHEL



*Profion gyrru beic yn yr ysgol.*

*Rhes ôl: E.R. Jones, Richard Evans, Neil Jones, Alan Williams, Adam Mumford, Paul Williams, Mark Owen, P.C. Oscar Evans (Hyfforddwr).*

*Rhes flaen: David Roberts, Paula Bull, Karen Evans, Sarah Morgan, Janet Pritchard, Awen Jones, Gwenno Bebb, Peter Sharpe, Gareth Hughes, Crhis Peters.*

*Y plant a lwyddodd yn yr arholiad beicio gyda'u tystysgrifau cyn gadael yr ysgol.*


W.J.GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

FANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*


GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

BP heat
A SHELL-MEX

*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr.*



GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo



Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

# Eich Hawliau

gan BERWYN HUGHES

## MODURON

**MAE'R diwydiant moduron yn ceisio sicrhau tegwch wrth brynu modur newydd neu ail-law, neu wrth atgyweirio'r modur.**

**Mae'r pedwar prif Gymdeithas Masnach Moduron wedi gosod safonau y disgwylir i'w haelodau gadw atynt. Gofynnwch os yw'r modurdy yn aelod o un o'r rhain – gall fod yn fendith ar adegau!**

### WRTH BRYNU MODUR NEWYDD

Os yw hysbyseb yn nodi ffigyrau traul tanwydd, dylir cael disgrifiad o'r ffurf prawf a ddefnyddir.

Os nodir pris y modur mewn hysbyseb, dyma'r pris y dylai'r prynwr ei dalu amdano, oni chynhwysir pethau fel costau danfon, ac yn y blaen – dylid hysbysebu hyn hefyd.

Mae'n ofynnol i ffurflen archeb ddangos yr holl gostau angenrheidiol i roi'r modur ar y ffordd.

Tra mae'r modur dan warant, gall unrhyw wall gael ei atgyweirio gan unrhyw fasnachwr a apwyntir i weithio ar y gwneuthuriad hwnnw, nid y masnachwr gwreiddiol yn unig.

Os yw'n rhaid i'ch modur fod oddi ar y ffordd oherwydd gwallau i'w atgyweirio yn ystod y cyfnod warant, gall y cyfnod hwnnw gael ei ymestyn.

Dylai'r cynhyrchwr adael unrhyw ran o warant sy'n dal mewn grym gael ei drosglwyddo i berchennog newydd.

### WRTH BRYNU MODUR AIL-LAW

Dylai unrhyw bris a nodir mewn hysbyseb gynnwys y Dreth Adwerth.

Dylai'r masnachwr fod wedi gwneud ymchwiliad o'r modur cyn ei werthu.

Dylai fod wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau fod modur yn dangos y milltiroedd cywir.

### PAN MAE'R MODUR ANGEN ATGYWEIRIADAU

Pan mae'n bosibl, dylech gael dyfyniad. Os derbyniwch un, mae'n gytundeb cyfreithiol. Pan nad yw hyn yn bosibl, dylai'r modurdy eich sicrhau mai amcangyfrif yn unig yw. Rhaid i pob dyfyniad neu amcangyfrif ddangos os y cynhwysir y Dreth Adwerth neu peidio.

Os oes rhaid tynnu rhannau o'r modur i ddarganfod achos rhyw wall er mwyn cyrraedd amcangyfrifiad, dylai'r modurdy roi gwybodaeth o unrhyw gost, *cyn dechrau*, a hefyd eu bwriad i godi arian os y gwrthodwch eu hamcangyfrif.

Rhaid i fodurdy gael eich caniatâd i fynd ymlaen â'r gwaith os yw'r gost yn debygol o fod yn fwy na'r amcangyfrif.

Dylai'r gwaith fod dan warant am gyfnod, neu dros nifer neilltuol o filltiroedd.

Mae'n rhaid i'r modurdy gymryd gofal o'ch modur a'ch eiddo.

Dylai'r modurdy ddweud wrthoch am unrhyw wallau ychwanegol.

Ar bob anfoneb dylai fod manylion llawn o'r gwaith a'r rhannau a ddefnyddiwyd, cyfradd a maint y Dreth Adwerth, dyddiad y gwaith, a darlleniad y milltiroedd ar y pryd.

### OS OES ANGEN I CHWI GWYNO...

Hyd yn oed gyda nawdd y Cymdeithasau Masnachu mae'n bosibl y bydd angen cwyno. Ar ôl ceisio datrys y broblem gyda'r modurdy a methu, dyma'r camau y dylech eu cymryd:

1) Gwnewch gŵyn ffurfiol – ysgrifennu i'r perchennog neu'r rheolwr, a chadw copi o'r llythyr. Os na all y modurdy roi cymorth gyda phroblem ynglŷn â modur newydd, ysgrifennwch i'r gwneuthurwr.

2) Ysgrifennu i'r Gymdeithas Fasnachu neilltuol – os yw'r modurdy yn perthyn i un o'r rhain, dylech ysgrifennu at yr un perthnasol.

3) Mynd â'ch achos i gyflafareddiad neu i'r llys – os na all y Gymdeithas ddatrys eich problem gallwch benderfynu fynd i gyflafareddiad, os y cytuna'r modurdy. Golyga hyn fod aelod o Gymdeithas Cymrodeddwyr yn astudio'r achos ac yn gwneud penderfyniad y mae'n rhaid i'r ddwy ochr ei dderbyn. Buasai'n rhaid talu am y gwasanaeth ond mae'n bosib y telid hyn yn ôl.

Ar y llaw arall mae gennych yr hawl i fynd â'ch achos i'r llys. Dylech holi yn y swyddfa lys leol ynghyl a hyn.

### NODWCH

Peidiwch â chysylltu â phawb ar yr un pryd – mae hyn yn tueddu i gymhlethu pethau.

Dylai unrhyw gŵyn yn erbyn aelod o un o'r Cymdeithasau Masnachu, sef yr M.A.A. gael ei wneud o fewn tri mis i'r digwyddiad, onibai ei fod yn broblem ynglŷn â pherchnogaeth modur, sydd yn rhaid ei wneud o fewn deuddeng mis.

Os nad yw'r modurdy yn aelod o un o'r Cymdeithasau, ceisiwch cyngor lleol ar unwaith. Os ydych yn aelod o'r R.A.C. neu'r A.A., mae ganddynt adnoddau i ymladd eich achos.

### NAWDD CYFREITHIOL I BRYNWYR MODURON

Cofiwch, wrth brynu modur newydd neu ail-law, fod warant yn rhywbeth ychwanegol i'ch hawliau cyfreithiol.

O dan y Ddeddf Gwerthiant Nwyddau mae'n rhaid i bob modur fod o "ansawdd gwerthadwy", gan ystyried ei oed, ei bris, ac yn y blaen.

Os nad yw modur yn perthyn i'r categori hwn mae gennych hawl i'ch arian yn ôl, neu o leiaf iawndal – mae llawer yn dibynnu ar y math o wall neu'r cyfnod y bu'r modur ar y ffordd gennych. Eto, nid yw hyn yn berthnasol os y dangoswyd y gwall ichwi cyn ei brynu, neu ei fod yn wall y dylech fod wedi sylwi arno'n syth.

Mae'n ofynnol i bob modur, newydd neu ail-law, gael ei ddisgrifio'n gywir, ond byddwch yn ofalus wrth brynu modur yn breifat – nid yw'r uchod yn berthnasol, ac mae eich hawliau dan y Ddeddf Gwerthiant Nwyddau yn llawer llai. Y peth doeth yw peidio prynu'n breifat os nad ydych yn berffaith sicr o gyflwr y modur ar y pryd.

### DYMA GYFEIRIADAU'R CYMDEITHASAU MASNACHU MODURON:

**The Chief Executive, Vehicle Builders and Repairers Association Ltd., (VBRA), Belmont House, 102 Finkle Lane, Gildersome, Leeds, LS27 7TW**

**Ffôn: (0532) 538333**

**Customer Complaints Service,
Scottish Motor Trade Association Ltd
(SMTA), 3 Palmerston Place,
Edinburgh EH12 5AQ
Ffôn: (031) 225 3643**

**The Legal Department,
Society of Motor Manufacturers n
and Traders Ltd. (SMMT),
Forbes House, Halkin St.,
London SW1X 7DS.
Ffôn: (01) 235 7000**


**ARCHEBWCH PAIS!**
**CYLCHGRAWN CYFFROUS NEWYDD I FERCHED CYMRU**

Dymunaf dderbyn 8 rhifyn o Pais (Awst '78 i Mawrth '79) am £3.20 (cludiad am ddim).

Enw.............................................

.................................................
(llythrennau bras)

Cyfeiriad.......................................

.................................................

.................................................

.................................................

.................................................

Dychwelwch i: Ysgrifennydd Tanysgrifio (Pais), Elernion, 24 Caeau Gleision, Rhiwlas, Bangor.

Sieciau ac Archebion Post yn daladwy i: 'Cyfrif Cylchgrawn Pais'


## LLANBERIS

RECORD HIR 'Canu Caernarfon' i ddathlu'r seithfed Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon er 1880 – Os hoffech archebu casét neu albwm (2 record hir) sydd yn llawn o dalentau'r fro rhowch eich enwau i Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir. Maent yn gwerthu am £4.99. Ceir manylion pellach am y record ar dudalen 3.

Mae'n bosibl archebu Crysau T am £2.75, a Teis am £1.75. Arddangosir y rhain yn un o siopau'r pentref.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL (Capeli M.C. Llanberis) – Nos Fawrth, Hydref 24 am 7 o'r gloch yng Nghapel Gorffwysfa. Pregeth i agor y Gymdeithas Lenyddol, gan y Tad Barnabas, (Eglwys Uniongred Groeg) o Ddolgellau. Boed i Lanberis roddi croeso calon iddo!

CLWB METHEDIG ERYRI – Cychwynwyd y Clwb Medi 4 am ddau o'r gloch y pnawn yn y Ganolfan a chan mai Cyfarfod Blynyddol oedd fe gafwyd adroddiad am rhan o'r flwyddyn gan yr ysgrifennydd oedd wedi ymddiswyddo ac wedi ei ailethol yn ôl. Fe roddoddi adroddiad manwl a'i fod yn teimlo y dylid fod mwy o anabl yn mynychu yn enwedig yn ochr y dynion. Yr oedd y Clwb wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn cystadlaethau ac yr oedd yn gobeithio y gwnawn yn well eto yn y flwyddyn 1978/79. 'Roedd rhai o'r Clwb wedi ymadael â ni, eraill wedi eu caethiwo yn eu tai oblegid yr haf sâl a difrifol.

Fe gafwyd hanes y cyllid gan y trysoryddes ac mae'r ochr yna yn y du yn lle coch gan ei bod hi'n anodd cynnal clwbiau o'r math yma gan fod y defnyddiau yn codi a chan fod yna addysgu gwaith llaw yn y Clwb mae'r costau yn drwm. Un ar bymtheg ar hugain yw rhif aelodaeth y Clwb yn awr ac rydwyf yn falch iawn ei fod yn cynyddu – ond mae digon o le i rai anabl yma petai dim dysgu gwaith llaw a phaned o de a sgwrs fach.

Nos Wener, fe gafwyd cinio yng Ngwesty Plas Gwyn, Pentrefelin i ffarwelio a Miss Marion Hughes, Gweithiwr y Gymdeithas a oedd yn mynd i Lerpwl am gwrs yn y 'Liverpool University Challenge'. Fe wnaed yr araith agoredig gan y Cadeirydd, Mr. J. Parrat ac fe gyflwynwyd yr anrheg iddi gan yr ysgrifennydd, sef 'Parker Pen' a Thocyn Llyfrau hefyd fe gafwyd gair gan y Llywyddes, sef Matron A.M. Jones, SRN., ac fe estynnodd groeso i Mrs. Eurwen Babbs sydd wedi cymryd lle Miss Marian Hughes. Cafwyd noson ddifyr a phawb wedi mwynhau ei hun.

*E.O. Thomas, Ysg. Mygedol*
*Clwb Methedig Eryri.*


**Gwesty Dolbadarn**

Tŷ Rhydd-Feddiant

**Llanberis**

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

**MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS NEU GINIO BLYNYDDOL**

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



**YMDDIHEURAF am fethu â chyrraedd y Llannerch y mis diwetha'. 'Roeddwn ym mhen draw Canada pan ymddangosodd yr *Eco*. Roedd tair streic yno – streic cwrw, streic y llythyrdai a streic awyrennau.**

Oherwydd yr olaf cefais weld tipyn bach mwy ar ogoniant yr hen fyd 'ma. Yn hytrach na hedfan adre o Vancouver yn unol â'r trefniadau gwreiddiol, bu'n rhaid i ni ddod adre drwy America. Cael taith ychwanegol o tua 400 milltir o Vancouver i Seattle yn nhalaith Washington a hedfan oddi yno i Alaska, a threulio bore yn nhre Anchorage cyn hedfan adre dros Begwn y Gogledd i Lundain. Anghofia'i byth y golygfeydd bythgofiadwy wrth fynd dros y Pegwn – y machlud lliwgar ac yna ymhen tua dwy awr – yr un haul yn codi wedyn bron yn yr union le. Diolch i'r streic fe gawsom fonws i'r daith dros Ganada a dim ond mewn pryd y cyrhaeddais adre i fynd i'r ysgol y bore wedyn.

Dim ond drwy deithio mewn bws y gellir gweld gogoniant y Mynyddoedd Creigiog yng Nghanada, a hyfryd oedd cael mwynhau y golygfeydd ar ôl treulio peth amser yn y dinasoedd Montreal, Quebec, Ottawa a Toronto.

Profiad hyfryd oedd cael cyfarfod â Chymry yn y dinasoedd hyn, a chan fod cymaint ohonom yn gwasanaethu mewn byd addysg fe drefnwyd drwy'r Swyddfa Gartref inni gyfarfod â phrif Swyddogion Addysg Montreal a Vancouver. Mae problemau dwy-ieithog cyffelyb yng Nghanada a Chymru, a difyr a diddorol oedd y trafodaethau a gawsom.



Cawsom groeso swyddogol gan Feiri Montreal a Vancouver, ac yn y darlun gwelir Mr. T. Gwyn Jones, Llanfairfechan, Miss E.N. Williams, Bae Colwyn (sy'n un o Arolygwyr ei Mawrhydi)a minnau yn dangos rhai o olygfeydd Cymru i faer Montreal.

'Roedd un o fro'r *Eco* yn ein cwmni hefyd, sef Mr. J.O. Hughes, Llanrug, y cyn-fferyllydd sy'n mwynhau ei ymddeoliad drwy deithio. Cawsom lawer o hwyl ar y daith o 14,000 i filltiroedd. Mae'n bechod ar y mwya i smocio cetyn neu sigârs mewn bysiau yng Nghanada a bu J.O. mewn dipyn o ddŵr poeth hefo dreifar y bws am iddo dynnu cymylau trwchus o'i getyn ar y daith o Fontreal i Ottawa. Diolch J.O. am eich cwmni diddan. 'Roedd hi'n dda fod tri ohonom i gadw trefn ar y merched 'na.

Ar ôl bob taith mae 'na rai atgofion yn mynnu aros yn fwy na'r lleill. Anghofia'i byth Hong Kong ac Ynysoedd Fiji ar ôl y daith o amgylch y byd. Yn sefyll allan ar ôl y daith hon mae y sŵn a'r olygfa yn Niagra Falls, – y gwasanaeth syml mewn capel Bedyddwyr y bu Gwynn, J.O. a minnau ynddo un bore Sul ym mhentref Jasper yng nghanol y Mynyddoedd Creigiog, a'r daith a gawsom yn ôl dros y Pegwn. Ond mae sawl atgof arall hefyd a erys am byth. Rhywbeth i edrych yn ôl arno yw gwyliau bob amser, – fe ddaw'r atgofion i gadw cwmni i chi dro ar ôl tro, ond mae'n braf cael dod adre o bobman.

## APÊL

**Wrth gychwyn y golofn hon yn rhifyn cyntaf yr *Eco* fy mwriad oedd ei gwneud yn golofn i chwi sy'n ymddiddori mewn llên a barddas. Fe gefais ymateb am sbel, ond bellach mae'r cerddi a'r llythyrau wedi peidio â dod ers tro.**

**Carwn apelio atoch ar ddechrau'r gaeaf fel hyn i anfon eich cerddi a'ch sylwadau yma. Mae llwyddiant a dyfodol colofn fel hon yn dibynnu'n llwyr arnoch chi.**

**Anfonwch air i Crud yr Awen, Bethel.**

Hwyl fawr,
Selwyn.

# DEWRIC

**" Haws yw dwedyd dacw'r Wyddfa
Nid eir trosti ond yn araf."**

**Dyna dystiolaeth hen ddihareb ac yn wir dyna dystiolaeth gohebydd a ffotograffydd dewr yr *Eco*.**

Ar noson oer, dywyll, aeth y ddau i hel eu traed i Fwlch Llanberis ac yna esgyn i Ddinas Bach i wylio ac i ryfeddu at ddawn a dewrder tîm achub ar y mynydd-oedd o Lanberis.

Efallai fod hel eu traed yn anghywir yn y cyswllt hwn oherwydd cafodd y ddau drafferth anhygoel i droedio'r llethrau gwlyb at y graig serth. Ymsythai'r graig i fyny am tua 100 troedfedd a swatiodd y ddau ddewr mewn agen glyd wrth ei hochr i gael golwg iawn ar y gweithgareddau. Yn wir, noson y ffotograffydd oedd hi, a mentrodd i'r eithaf (a chysidro ei oed!) i gael lluniau gwerth chweil i'r *Eco*.

Ond dyna ddigon ar y gwamalu. Dengys y lluniau yma'n glir y mentro anhygoel a gymerodd le y noson honno – a hynny ond wrth ymarfer! Mae'r dynion yma o ddifrif. 'Roeddynt wedi bod allan y noson cynt yn codi corff oddi ar lethrau ysgythrog yn Nant Gwynant a digon hawdd oedd teimlo'r awyrgylch o siom. " Achub bywydau ydi'n gwaith ni – ond gorchwyl annifyr iawn ydi codi corff", meddai Mr. Cledwyn Jones ysgrifennydd y tîm.

Ar ôl disgwyl rhyw chwarter awr, yn yr agen, ymddangosodd un o'r dynion ar gopa'r graig. Ymlwybrodd yn ofalus, gyda rhaff yn crogi am ei ganol, yng




*RHAI O AEL*

*Yn sefyll o'r chwith i'r dde: Cyril J*
*Maslem-Jones, Roland Leyland, Cled*
*Williams, Aled Taylor, John Grisdal*
*Grat Brown, Hugh Walton, Steve Mit*

ngwysg ei gefn i lawr y graig.

Siaradai'n ddibaid ar y *walkie talkie* gydag arweinydd y tîm. Rhoddai John Ellis Roberts gyfarwyddiadau i'r dringwr yntau.

Yn dilyn hyn cafwyd sawl ymarfer gyda'r *stretcher*. Daethpwyd



N BRO



DAU'R TÎM
*es, John Jackson, Alf Hughes, Bob
n Jones, Colin Dickson, John Glyn
a John Ellis Roberts. Yn eistedd:
ell.*

â'r dringwr yn y *stretcher* i lawr yn syth *(vertical)* ar draws *(horizontal)* ac yna ar gefn achubwr. Dibynna llwyddiant yr achub i gyd ar gryfder y dringwyr ac ar gyfarwyddiadau'r gŵr wrth y rhaff – John Ellis Roberts.

Gofynnwyd i John Ellis Roberts pwy oedd yn disgyn amlaf ar y mynyddoedd; "cerddwyr", oedd yr ateb, "cerddwyr di-brofiad. Chlywsoch chi 'rioed am fugail yn syrthio – mae o yn adnabod ei gynefin. Anaml iawn y bydd dringwyr profiadol yn disgyn hefyd." Teimlai Mr. Roberts mai synnwyr cyffredin oedd y peth pwysicaf i gerddwr. 'Roedd yn rhaid gwylio'r tywydd. Nid yw'r tywydd yr un fath yn Llanberis neu Gorffwysfa ag a yw ar gopa'r Wyddfa. Mae'r tymheredd yn disgyn 4 gradd gyda phob 1,000 o droedfeddi. Mae 10 gradd o wahaniaeth rhwng Pen Bwlch Llanberis a Phen yr Wyddfa. Nid yw'r cerddwyr yn sylweddoli hyn ac fe gychwynnant heb y dillad iawn. Nid yw'r rhan fwyaf yn gwybod pryd i droi'n ôl. Mentra llawer yn rhy bell. Mae digon o gyngor i'w gael mewn gwahanol ganolfannau – ond ychydig sydd yn manteisio arno.

Gwaith gwirfoddol yw hyn ac 'roedd yn rhaid gofyn y cwestiwn, "Pam 'da'ch chi'n gwneud hyn hogia'?" Teimlai rhai fod galwad y mynyddoedd yn rhy gryf iddynt ddianc. Meddai un o'r tîm, Mr. Cyril Jones, Llanberis, " 'Rydw i yn cerdded y mynyddoedd yn aml fy hun – mae'n braf gwybod fod yna dîm achub wrth law pe digwyddai rhywbeth i mi."

"Fe wnaf rywbeth i achub bywyd unrhyw un," oedd ymateb Cledwyn Jones.

Yn wir, mae o a'r criw wedi gwneud hynny, lawer gwaith.



## ENGLYN 'Y PISTYLL'

*Pwy feddyliai y byddai cais H. Jones, Ceunant ynglŷn ag awdur yr englyn i'r 'Pistyll' yn codi sgwarnog mor ddiddorol.*

*Yr ateb syml i'w gais yw mai William Roberts (Gwilym Ceiri) o Hendre, Trefor, Bro'r Eifl biau'r englyn. Fe'i ganed yn 1881 a bu fyw i fod yn 86 mlwydd oed. Ef oedd tad Miss Valmai Roberts, cyn-athrawes yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, ac yr wyf yn wir ddiolchgar iddi am y wybodaeth sy'n dilyn ynglŷn â'r englyn.*

*Ymddengys i'r englyn gael ei gynnwys yn llyfr Besi M. Williams, 'Dwyn mae cof', ond iddi hi briodoli'r englyn i Bedrog. Gwnaeth y camgymeriad hwn oherwydd i'r englyn ymddangos mewn gwaith cynharach mewn ysgrif gan John Breeze Davies ('Tro i Faesglasau') a gyhoeddwyd yn 1939, ac a adargraffwyd yn 'Ysgrifau John Breeze Davies' a gyhoeddwyd wedi eu golygu gan y Dr. Iorwerth Peate. Fel hyn y dywed JBD: ..."y pistyll... y canodd Pedrog iddo...*

**Bu nain a hen nain honno – a'i phiser**
**Tra phwysig o tano;**
**Er rhoi fel hyn ers cyn co'**
**Rhed atom yn rhad eto"**

*Cyhoeddwyd yr englyn am y tro cyntaf yn 'Cymru' (y Cymru Coch) ym mis Chwefror 1925 dan enw William Roberts, a dyma'r fersiwn cyntaf:*

**'Bu nain, a bu nain honno – a phiser**
**Hen ffasiwn o tano;**
**Er rhoi fel hyn er cyn co'**
**Rhed atom yn rhad eto.'**

*Yn ystod y '30'au bu William Roberts yn barddoni dan ysgogiad R. Williams Parry mewn dosbarthiadau nos y W.E.A. yn Nhrefor. Yn y cyfnod hwn, cywirodd yr englyn gan ei anfon i Babell Awen, 'Y Cymro' yng Ngorffennaf 1939; a dyma'r ail fersiwn:*

**'Bu nain a nain honno – a phiser**
**Hen ffasiwn o dano;**
**Er rhoi fel hyn er cyn co'**
**Rhed atom yn rhad eto.'**

*Newidiodd y llinell gyntaf er mwyn osgoi'r drycsain wrth ailadrodd y gair 'bu', mae'n debyg.*

*Yn dilyn cyhoeddi'r llyfr 'Dwyn mae cof', cafwyd cyfres o lythyrau yn 'Y Cymro' (Ebrill 1970) yn trin a thrafod 'dirgelwch' yr englyn. Ond gan ferch William Roberts yr oedd y prawf terfynol, oherwydd fod yr englyn ganddi yn llawysgrif ei thad yn cynnwys y cywiro a wnaeth yn dilyn awgrymiadau R. Williams Parry.*

*Cyhoeddwyd yr englyn am y tro olaf yn 'Awen Arfon' yn 1962. Dim ond wythnos ar ôl i'r rhifyn diwethaf o 'Eco'r Wyddfa' ymddangos, cyhoeddwyd englynion coffa i William Roberts yn 'Y Cymro': – "esiampl o'r bardd gwlad ar ei orau, ac a wnaeth yr englyn adnabyddus i'r Pistyll." Ydych chi'n credu mewn cyd-ddigwyddiad?* *Dafydd Whiteside.*

## BWTHYN Y GWAED – RHYD FADOG, DEINIOLEN



**ERBYN hyn nid oes dim yn aros o'r bwthyn hwn – un o'r rhai hynaf yn Neiniolen.**

**Bwthyn Rhyd Fadog – ar y tir yma yr ymladdodd Madog ap Llewelyn un o'i frwydrau mwyaf gwaedlyd a hynny yn erbyn Iorwerth 1af a'i luoedd Seisnig. Mae afon yn llifo gerllaw'r bwthyn (Afon Goch) a chroesodd Madog a'i filwyr ryd dros yr afon ac felly y cafodd y bwthyn ei enw.**

Mae'r bwthyn fel y dywedwyd eisoes wedi diflannu ond fe'i hanfarwolwyd drwy alw ystâd o dai Cyngor a adeiladwyd ar y tir – yn Ystad Rhyd Fadog.

Bu'r frwydr y soniwyd amdani rhwng Madog a byddin y Brenin yn un waedlyd dros ben. Bu Madog a'i filwyr yn llochesu yng nghoedwig fawr Gwaen Gynfi, ond nid yn hir gan i luoedd Iorwerth ymwthio gyda glannau Menai o Gonwy a chyrchu tuag at loches y Cymry yn Llys Dinorwig. Bu ymrafael brwd rhyngddynt ac ar un amser llwyddodd y Cymry i'w hanfon yn ôl, ond ymosododd y Saeson yn y nos a'u goresgyn. 'Roedd colledion y Cymry y pryd hyn yn arswydus, ac yn ôl yr hanes bu'r Afon Goch, sy'n dal i lifo gerllaw, yn goch gan waed dynion am ddyddiau, ac felly hefyd Cefn Coch.

Yn ôl rhai haneswyr mae beddau i'r rhai a laddwyd yn y frwydr, mewn lle a elwir Beddau y Chwilwyr, ger Blue Peris, Dinorwig – os gwn i a all rhywun roi mwy o fanylion am hyn – a yw'r fangre hon i'w gweld heddiw?

# Newyddion Hwyr

## LLANBERIS

URDD AC AELWYD LLANBERIS

Bydd cyfarfodydd Adran yr Urdd (oed 11–14) yn ailddechrau ar nos Iau, Hydref 12 yn Festri Gorffwysfa am 6.30 p.m. Cynhelir yr Adran hon ar nos Iau o hyn allan. Tâl aelodaeth: 20c. Bydd cyfarfodydd AELWYD yr Urdd (oed 14–25) yn cyfarfod bob nos Wener yn Festri Gorffwysfa am 6.30 p.m. Cynhelir y cyfarfod cyntaf nos Wener, Hydref 6. Tâl aelodaeth: 20c.

Mae angen gwirfoddolwyr i gynorthwyo'r arweinyddion yn y ddwy fenter hon. Apelir ar i unrhyw rai â diddordeb gysylltu â Mr. Bert Parry, Llys Orwig, Stryd Newton, cyn y cyfarfod cyntaf. Diolch yn fawr.

## LLANRUG

CLWB CANT – Dyma enillwyr diweddar (dau fis): Mrs. E. Pugh, 14 Glanmoelyn; Mr Glyn Thomas, Tir-Na-Nog; Mr. A. Jones, Gwên-y-Wawr. Alun Pierce, 61 Glanffynnon; John Rowlands, Llys Forgan a G. Williams, 31 Glanffynnon.

CRONFA RIGARUG – Fel canlyniad i'r Twmpath Dawns a Bwffe a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Royal Caernarfon yn ddiweddar gwnaethpwyd £18 o elw at y gronfa. Diolch i bawb am noson llawn hwyl.

DINORWIG

**Cyngerdd nos Wener**
**Hydref 6**
**yn y Ganolfan**
**7.30 p.m.**
**gan Seindorf Deiniolen**
**Myrddin a Rosalind**

**Dim tâl am fynediad.**

# Cyrraedd y nod — £550

Nos Iau diwethaf (Medi 21) mewn cyfarfod yng Nghanolfan Cymdeithasol Dinorwig, cyhoeddwyd gan swyddogion Pwyllgor Apêl Dinorwig/Fachwen o Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon fod yr ardal wedi cyrraedd y nod angenrheidiol o £550. Yn sicr mae hyn yn llwyddiant mawr, yn arbennig felly o gofio fod yr holl arian wedi ei gasglu o fewn blwyddyn o amser.

Wrth gwrs mae'r diolch am y fath lwyddiant yn ddyledus i'r ardal gyfan ac am arweiniad gweithgar a dygn y swyddogion Mr. Rennel Williams (Cadeirydd); Mr. Hugh Thomas (Ysgrifennydd); a Miss Ellen W. Jones (Trysorydd). Dylid nodi fod y gronfa ar agor o hyd i'r rhai hynny sydd eto yn dymuno cyfrannu.

# Glywsoch chi hon?

**OS bydd gwagle'n caniatâu, mi fyddwn o bryd i'w gilydd yn cyhoeddi ychydig bytiau o hiwmor gwir. Rhannau doniol ydynt wedi eu cyfieithu o lythyrau at Adran Iechyd a Nawdd Cymdeithasol, Glasgow, oddi wrth bobl sy'n gwneud ceisiadau am gymorth. Dyma enghraifft:**

*"... Rydych wedi newid fy merch fach i fachgen. Wnaiff hyn unrhyw wahaniaeth?"*

**A beth am hon fel coblyn o godwm?**

*"Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chwi fy mod wedi llithro ar ddarn o afal yng ngorsaf Stryd y Frenhines ac wedi landio yn Ysbyty Gyffredinol y 'Southern'."*


**Gwasg Gwynedd**

**YN EISIAU**

ARTIST PASTIO
i baratoi
gwaith celf ar gyfer argraffu.
Destlusrwydd a chyflymdra yn hollbwysig.

Ceisiadau ysgrifenedig i:
GWASG GWYNEDD, NANT PERIS,
CAERNARFON.
(Byddwn yn symud i adeilad newydd
yng Nghaernarfon yn y dyfodol agos.)


Gweler hefyd yr hysbyseb ar dudalen 15



## DRAENOG DYSGEDIG

Hediwceshyn i'r plant! It's pwysig, ai? Pobl fatha'r "Gwynedd Parents Association" sy'n medru'n rhoi ni ar ben ffordd efo hediwceshyn. Ddaru nhw gael pyblic mîting henormys yng Nghanolfan Penrallt yn dre nos Iau, Medi 14 efo lot o adfyrts i hel parents yno, ag esral, 'roedd o'n mîting hediwceshiynal.

Ddaru tri offishal yr asosieshyn siarad i ddechra. Ew rydan ni'n lwcus bod pobol hediwcteded fel hyn yn setlo ffor' 'ma i ddweud wrtha ni be-di-be efo ediwceshyn. Wedyn fuo 'na discyshion rhwng y tri offishal a'r un membyr oedd wedi troi 'fyny.

Roedd polisi bei-lingwal cyngor Sir Gwynedd yn ei chael hi'n go hegar. Sut mae'n bosib i'n plant ni fedru handlo Welsh ar dop y Saesneg? Dydi o ddim yn practical, nac di? Sut fedar neb ddysgu petha fatha syms, chemistry a phycics mewn iaith fatha Welsh? Ag eniwe, fel dudodd y chairman (dyn o Nottingham) "all this Welsh is reducing the job opportunities for teachers who may want to come into the area". (Dydio'n bechod bod dyn hediwcated fel hwn, sy wedi bod cystal â setlo yn yr ardal hon, wedi cael ei ddisgrifio gan un o'r brodorion unediwcated fel 'middle-class elitist settler').

Eniwe os da chi am ddôs o hediwceshion peidiwch â methu mîting nesa'r Gwynedd Parents Association; fel y dudon nhw, "the association hopes to have more meetings like the last one."

# Y GRAITH

*Y delyneg a enillodd y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd i John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.*

**Ar draeth eiriasboeth Llanddwyn y**
**diflannodd.**

**Cydymaith oes.**
**Cyn mentro i'r cynefin dieithr hwn,**
**Cludodd ddŵr y Neiagra**
**A lluwchfeydd o bridd,**
**I bob cwr o'r ardd a phob cornel o'r tŷ.**

**Melynach na'r haul, y briallu a'r mêl,**
**Partner y rhaw, cyfaill y bêl a Thedi.**
**Hen fwced bendigedig,**
**Ar ei drip cyntaf i lan y môr.**

**Ond rhyw Sais a'i dododd yn ei fŵt,**
**Pwy ŵyr i be?**
**Ac ar y traeth heli,**
**Bedydd o ddagrau hallt**
**Yn nulliau'r byd**
**A gafodd Lowri.**
**Wylodd lond bwced, os nad llond bŵt.**

DIOLCH
ARBENNIG

i Meirion Jones am ei waith trwyadl fel Trefnydd Gwerthiant yr Eco yn Neiniolen.

**SIOE GWNINGOD**

**Cofiwch am y Sioe**
**ddydd Sadwrn, Medi 30**
**yn hen Ysgol Glanmoelyn**
**Llanrug**
**Drysau'n agor am**
**1.30 p.m.**
**Dewch yn llu.**
**Hon yw'r sioe gyntaf o'i bath**
**ers talwm iawn!**


YN EISIAU

**Hen Lyfrau Cymraeg**


Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU – RECORDIAU – CARDIAU

**SIOP**
**Y PENTAN**

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)


## MEIC LLWYNCOED YN PILGRIM'S REST



*Pilgrim's Rest yn nwyrain y Transvaal, De Affrica. (Llun trwy garedigrwydd Mrs. E. Hughes, y Groeslon).*

**55 mlynedd i fis Hydref y flwyddyn hon y gadawodd Mike Owen (fel Mike Llwyncoed yr adnabyddir ef orau) am dde Affrica i fyw, i bentref o'r enw Pilgrims Rest, sydd tua 250 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Johannesburg. Pentref a'i leoliad yn debyg i'r Fachwen: h.y. ar ochr y dyffryn a'r rhan fwyaf o'r tai ar yr un ochor i'r ffordd. Dyffryn culach o lawer na dyffryn Llanberis gydag afon ac nid llyn ar ei waelod.**

Mynd yno i ymuno â'i dad a oedd yn gweithio yn y mein aur ers 1912 oedd, a chofiai'n dda y diwrnod ymadael hwnnw. Ef a'i fam, ei chwaer Jessie a'i frawd Fred yn gadael o orsaf Cwm-y-glo, ac wrth i'r trên fynd heibio i'r ysgol yno safai'r plant a'r athrawon yn chwifio eu ffarwel iddynt. Taith bron i fis ar y môr ac wedyn pum diwrnod mewn trên o Capetown i fyny i Graskop ac wedyn gyda char a cheffyl dros fwlch 'Long Tom' sydd â'i fan uchaf yn 2,170 metr uwch wyneb y môr. 'Roedd amryw o Lanrug, Llanberis a Chwm-y-glo wedi ymfudo i'r un rhan o'r wlad, (ac mae bedd mwy nag un i'w weld yn y fynwent yn Pilgrims heddiw), ond erbyn hyn ef yw'r unig Gymro sydd ar ôl.




*Bedd Henry Roberts, Cwm-y-glo, a fu farw yn Pilgrim's Rest ym 1904 o ganlyniad i ddamwain. (Y llun trwy garedigrwydd Mrs. E. Hughes, y Groeslon).*

'Roedd lleoliad y mein cyntaf yr aeth i weithio iddo ar ochr mynydd 'Jubilee' ac mae'r mynydd hwnnw i'w weld yn blaen o'r tŷ lle mae'n byw heddiw, ac fel yn y chwarel gyda phob ponc ag enw arbennig, yr oedd pob mein â'i henw ei hun.

Gweithiai Mike yn y chwarel cyn mynd allan, yn Bonc y Dyffryn. 'Roedd ei gyflog wythnos yn 2/6 yr adeg hynny. Yn y mein dechreuodd ar gyflog o 5/-, ac ymhen ychydig wythnosau yr oedd hwnnw wedi codi i 10/- yr wythnos. Bu'n gweithio yn yr un mein yn Pilgrims am bron i 40 mlynedd, ac ar ôl bron i hanner can mlynedd o weithio yn y mwynau aur ymddeolodd yn 1972 ac fe ddaeth y cloddio am aur i ben yn y rhan yma o'r wlad yn 1973, ar ôl bron i gan mlynedd. Y gost o gynhyrchu a chloddio, fel ag yn y chwarel, wedi mynd yn rhy uchel.

Dyma fel y cofnodwyd cyfarfod ymadawol iddo a gynhaliwyd yn caban bonc Dyffryn:

**Yng nghaban Ponc y Dyffryn, Chwarelau Dinorwig, ar awr ginio dydd Iau, Hydref 11eg, cynhaliwyd cyfarfod ymadawol i Mr Michael Owen, Cwm-y-glo, yr hwn sydd yn myned i dde Affrica, o dan lywyddiaeth Mr Owen Hughes, Bryn, Cwm-y-glo. Ac aed trwy y rhaglen a ganlyn:**
**Tôn gyffredinol – Cwm Rhondda, wythawd dan arweiniad Mr David Jones, unawd gan Mr Hugh Jones, Bryn Hyfryd, Cwm y Glo, annerchiad gan y Llywydd, selection gan Mr Owen J. Owen, Pant Tirion, Llanrug, annerchiad gan Mr. John Evans, Llys Arfon, Llanrug, can gan Mr. Jack Jones, Cwm y Glo, annerchiad barddonol gan Mr Eryri Williams, Rhythallt Terrace, Llanrug, adroddiad gan Mr Wm Roberts, Tai Croesion, selection gan Mr Owen J. Owen. Cyflwyniad o'r rhoddion ar ran y gweithwyr gan Mr W. Rome Owen, Penisarwaen a Mr Robert Jones, Llanberis, y ddau weithwyr hynaf yn y bonc, sef suit-case, Bibl a fountain pen, am y rhai y diolchodd Mr Michael Owen yn gynnes i'w gyd weithwyr ac hefyd am eu teimladau da tuag ato. Diolchwyd i bawb a gymerasant ran yn y cyfarfod gan Mr. John D. Owen, Trefor Terrace, Llanrug, a chefnogwyd gan Mr David Roberts, Ship, Llanddeiniolen. Annerchiad gan Mr. Griffith E. Williams, Cwm y Glo, wythawd 'Y Bwthyn ar y Bryn', dan arweiniad Mr D. Jones, annerchiad gan Mr Owen Jones, Cae Corniog, Penisarwaun, tôn ymadawol 'Caersalem'.**

**Dyma'r pennill a gyfansoddwyd:**

**Hen gyfeillion llon y Dyffryn**
**Yma heddiw sydd yn cwrdd,**
**A'u teimladau'n bur gymysglyd**
**Am fod Mike yn mynd i ffwrdd.**
**Welwyd 'rioed hen ffrind mwy hoffus**
**Yn y chwarel, na Chwmglo,**
**Ac mae pawb yn teimlo'u clonnau'n**
**Mynd i ffwrdd i'w ganlyn o.**

**Hir y cofir ei gymdeithas**
**Gan y bechgyn yn y bonc,**
**Hogyn deunaw, llawn direidi**
**Bu yn nwyfus, cryf a sionc.**
**Welodd neb mo Mike yn smocio**
**Nac yn arfer llw, na rheg;**
**Mae'i rinweddau a'i gymeriad**
**Heddiw megis perlau teg.**

**'Rwyf yn siŵr mai fo yw'r goreu**
**Welwyd eto yn ein plith,**
**Am rwydd yrru 'i lawr o'n golwg**
**Fara gwyn neu fara brith;**
**A chyn gorffen gyda'i ginio**
**Llyncai deisen blât heb lol:**
**Ganwaith 'dwedodd Thomas William**
**Nad oedd gwaelod ar ei fol.**

**Dafydd Jones fo'n dyner wrtho,**
**Mordaith dawel, nid yn sâl,**
**Ond yng nghanol hwyliau iechyd**
**Mae cyrhaeddyd i'r Transvaal**
**Ac yn Affric (bro'r goludoedd)**
**'Rwy'n dymuno iddo lwc**
**Caiff y llewod yno deimlo**
**Fod yn Michael eitha' plwc.**

# Pan oedd Nain yn hogan —

Casglwyd gan Owen Parry – Bethel (gynt)

**O'R "GENEDL GYMREIG"**
**IONAWR 3ydd, 1878**

**PENISARWAUN:** Dydd Sadwrn, y 29ain o Ragfyr cafodd oddeutu 250 o blant ysgol ddyddiol y lle uchod eu gwledd flynyddol o de a bara brith a phethau eraill. Gweinyddwyd arnynt gan fechgyn a merched ieuanc yr ardal, ac ar ôl clirio y byrddau cafwyd cyfarfod difyr ac adeiladol iawn mewn canu ac areithio, pryd y llywyddwyd gan Parch. Lewis Owen (W), Llanberis. Anerchwyd y cyfarfod gan y llywydd, Y Parch G. Thomas, Penisarwaun a W.J. Williams, Bethel. Hefyd gwobrwywyd 70 o blant am fod yn yr ysgol y nifer gofynnol a roddwyd iddynt flwyddyn yn ôl, a'r un a fu fwyaf oedd lodes fach Mr. William Ffoulkes, Tyntwll, Brynrefail, yr hon fu yn bresennol y nifer gofynnol oddigerth pump, ac mae y 70 hyn yn profi y gall yr holl blant wneyd yr un peth ond penderfynu hynny. Da gennym mai Ysgol Penisarwaen oedd y fwyaf llwyddiannus o ysgolion bwrdd plwyf Llanddeiniolen y flwyddyn hon. Pasiodd 80 y cant.

**Llys yr Ynadon, Caernarfon:** Dydd Sadwrn. Gerbron Dr. Millar (yn y gadair), Mr. Powell a Mr. De Winton.

**Gwrthod Cynnal ei Fam:** Mr. W.R. Whiteside receiving officer dosbarth Llanrug a apeliodd am wys i feddiannu gwerth 24s o eiddo W.J. Owen Brynbras, yr hwn a wrthodai dalu 1/6 yr wythnos tuagat gynhaliaeth ei fam, fel y gorchymynasid iddo gan yr ynadon ychydig amser yn ol. Caniatawyd y cais.

**Meddwdod:** Gwadai Evan Hughes, chwarelwr, Penisarwaun iddo fod yn feddw yn y King Arthur Inn a dywedai fod tystiolaeth yr Heddgeidwad Evans yn anghywir. Rhoddwyd y diffynydd ar ei lw gan yr ynadon, a hysbysodd hwy mai ffraeo â 'chyfaill' yn unig a wnaeth . **Mr. Powell:** Dywedwch wrthym faint o laseidiau a gawsoch, yna gallwn ddweyd a oeddych chwi yn feddw a i peidio. **Y diffynydd:** Nis gallaf, nid wyf yn cofio. Dirwywyd ef i 2/6 a'r costau.

STORFA
Mace
O.R. & M. PARRY
Sgwâr Llanrug
Caernarfon 2790
Perchnogion newydd, ond gwasanaeth a chroeso cystal ag erioed !

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth
E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis 491
MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

# WAUNFAWR



*Alan Denton. Gweler ei adroddiad isod*

Y 14 COPA – Tra'n siarad gyda Mrs Pat Parry, ysgrifennyd pwyllgor lleol Waunfawr (Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon), yr hon a ddywedodd bod y targed o £2000 yn bell i ffwrdd, cef cefais y syniad o geisio cerdded y 14 copa (h.y. y 14 copa yn Eryri sydd dros 3,000 o droedfeddi) yn yr un diwrnod. Buasai hefyd yn cyflawni uchelgais hir oes, ac yr oedd yn syniad da i'w wneud yr adeg yma pan 'rwyf wedi cyrraedd yr oed mae bywyd i fod i ddechrau!

Derbyniodd Pat ganiatâd ei phwyllgor a dosbarthwyd ffurflenni noddi.

Bu rhaid newid y dyddiad (8 Gorff.) i'r Sadwrn dilynol oherwydd tywydd drwg, ac fe gychwynnodd Tony Waite o Landegfan a minnau o Lanfairfechan am 3.40 o'r gloch y bore, ar ôl cael ein cludo yno mewn car gan Margaret (fy ngwraig) a Pat Parry.

Cychwynasom yn y niwl yn ymwybodol o'r 36 milltir a'r 14 copa o'n blaenau. Yr oedd y merched (Margaret a Pat) i'n cyfarfod yn Ogwen, Nant Peris, ac yn nhroed llwybr Snowdon Ranger. Ar ben Drum fe gliriodd y niwl ac yr oedd yr haul yn tywynu ac yn ffortunus fe gododd awel bach. Fe gyrhaeddasom Foel Fras, Foel Grach a Charnedd Llewelyn mewn 3 awr. Bu raid i ni ddifyrru i ben Yr Elan a buasem wedi hoffi aros yno gan fod yr olygfa a'r heddwch yn ei wneud yn llecyn tangnefeddus. Aethom dros Carnedd Dafydd a Phen-yr-Ole-Wen ac yna i lawr i gwrdd â'r merched gyda'r bwyd a'r diod.

I fyny â ni i ben Tryfan, Glyder Fawr, Glyder Fach, ac yna ymlaen i'r Garn. Erbyn hyn yr oeddym yn dechrau arafu. Yn ara deg daeth copa Elidir Fawr – yr oeddym ar ôl gyda'r amserlen – ac mae'n ffordd hir i lawr i goesau blinedig. Cyn i ni gyrraedd y ffordd fawr dychrynodd Margaret a Pat ni o'r tu ôl i rhyw wal ond yr oeddym yn falch iawn o'u gweld. Llawer cwpaned o de yn hwyrach cychwynasom i fyny beth oedd yn ymddangos yn awr yn anferth, sef, Crib Goch a Crib y Ddysgl a chyrhaeddasom ben yr Wyddfa am 8 o'r gloch y nos. Daethom i lawr llwybr Snowdon Ranger yn eithaf cyflym i gyrraedd pen y daith am 9.20 o'r gloch. 'Roedd Margaret, Pat ac Alison, fy merch fach, yno i'n croesawu. Yr oedd y ddau ohonom yn flinedig iawn.

Diolch o galon i Tony am ddod gyda mi ac hefyd i Pat a Margaret am eu cymorth – yr oedd yn galondid gwybod y buasai rhywun yno i'n croesawu. Fe'i gwnaf eto y flwyddyn nesaf.

*Alan Denton.*

Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor newydd nos Lun, Hydref 23. Y gŵr gwadd fydd Arthur Vaughan Jones, Pwllheli ac fe fydd yn sgwrsio am 'Fyd Natur'. Croeso mawr i'r hen aelodau ac i aelodau newydd.

DYWEDDÏO – Llongyfarchiadau i June, merch Mr a Mrs Lewis, 8 Ael y Bryn, ar ei dyweddïad gyda Nicholas, mab Mr a Mrs Taylor, 36 Llwyn Beuno, Bontnewydd.

PRIODI – Dymuniadau gorau i Miss Anna Maria Bracegirdle, Bro Waun ar ei phriodas â Mr. Glyn Williams, o Borthmadog. Hefyd i Mr. Brian Parry, Bro Waun ar achlysur ei briodas â Miss Sandra Evans, Bethel.

CLERC – Mr. O.T. Jones, Bryn Gwenallt yw Clerc newydd Cyngor y Dref, Caernarfon. Llongyfarchiadau ar ei benodiad.

SWYDD GYNTA' – Penodwyd Dylan Iorwerth, Cartrefle i'w swydd gynta' fel gohebydd i'r 'Wrexham Leader'. Dymuniadau gorau iddo ac i Martin Eaglestone sy'n dechrau fel myfyriwr yng Ngholeg Politechnig Birmingham. Bydd Linda Jones, Crud yr Awel hefyd yn dechrau yn y Coleg Normal, Bangor.

CERDDORIAETH – Llwyddodd y canlynol mewn arholiadau cerddoriaeth yn ddiweddar: Nicola Roberts, Tŷ Hen, Joanne Weale, Ty'n Twll Bach a Denise Parry, Bryn Golau. Fe'u dysgwyd gan Mrs Ann Marsten, ALCM, Blaen y Nant.

PROFEDIGAETH – Cydymdeimlwn gyda Mrs Roberts, House ar golli ei brawd yn ddiweddar.

BRYSIWCH WELLA – Dymunwn wellhad buan i Mrs Lillian Wyn, fu yn yr ysbyty yn ddiweddar a hefyd Alan Cotton, Brynhyfryd.

GENEDIGAETH – Ganwyd mab, Huw i Olwen a Norman, Llidiart Wen.

YR AELWYD – Fe gychwyn y tymor ar Medi 30 gyda thaith i gopa'r Wyddfa o dan arweiniad Dic Jones ac Irene Roberts.

CROESO – Dechreuodd Miss Iona Roberts, Cynlas, Cyffordd Llandudno fel athrawes yn yr ysgol y tymor hwn. Mae hi'n enedigol o Nantlle.

DIOLCH – Dymuna Michael Parry, Ffridd Felan, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei gyfnod yn yr ysbyty. Mae'n dda ganddo ddweud ei fod yn gwella'n foddhaol.

CRONFA'R EISTEDDFOD – Danfonir llythyr i ofyn am unrhyw gyfraniad tuag at gronfa leol Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon at bawb yn y pentre' a'r cylch yn ystod y bythefnos nesa'.

Yn ôl y Bnr Tomos Huwie Williams o Goedgwydryn casglwyd £883 at y gronfa mor belled, ac mae arian ychwanegol sydd wedi ei wneud, ond sydd hyd yn hyn, heb gyrraedd y coffrau.

Cynhelir cyngerdd gan Barti'r Bryniau yn Festri Bethel, ar Hydref 13 i godi arian i'r gronfa.

Mae record arbennig – 'Canu Caernarfon' ar werth gan y Fns Pat Parry, Ffridd Felan a gobeithir gwneud elw sylweddol drwy werthu'r record hon.

Diolchwyd hefyd i'r Br. John Hanlon o Fryneirian am ei gynnig i osod potel ar far y dafarn i ofyn am gyfraniadau. Fe wneir hyn yn ystod y dyfodol agos.


**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**


# CWM Y-GLO

O'R AMERIG – Croeso adre' i Arwel, mab Mr a Mrs D. Jones, 4 Bryn Hyfryd, sydd wedi treulio tri mis o'i wyliau haf o'r Brifysgol ym Mangor yn gweithio mewn labordy ffatri yn ninas Kansas, America.

LLONGYFARCHIADAU – calonnog i Christopher John Sharp, ar ddod yn ail yn ras nofio'r Fenai, o westy'r Forforwyn i Borth yr Aur. Mae John, sy'n wyr i Mrs Olwen Hughes, Alexandra, newydd orffen ei gwrs fel athro ymarfer corff yng Ngholeg y Normal. Pob llwyddiant iddo i'r dyfodol.

YR YSBYTY – Deallwn fod Mr Tom Owen, 3 Dolafon yn yr ysbyty, ac wedi bod dan driniaeth lawfeddygol, hyderwn iddo gael gwellhad buan. Mae'r un dymuniad i Mr Gwilym Evans, Terrace, sydd yn glaf yn Ysbyty Gallt y Sil.

Croeso gartref i Mr Owen Williams, 5 Dolafon, sydd hefyd wedi bod dan driniaeth lawfeddygol yn Lerpwl, a Mrs Nan Rowlands, Bodafon o ysbyty Gobowen.

MARW – Medi 16 mewn ysbyty yn Sir Gaer bu farw Mrs Trefor Owen, Glasfryn yn 88 oed.

Fe aeth i Alsager rhyw dri mis yn ôl i aros gyda'i mab, David Hugh a'r teulu, a brawychwyd ni yn y Cwm o glywed am ei marw sydyn.

Fe'i cofiwn hi fel cymeriad arbennig o garedig a hwyliog, a mawr ei pharch ymhlith ei chydnabod.

Bydd chwith ar ei hôl yn Tabernacl lle yr oedd yn aelod ffyddlon, ac ar ei haelwyd, lle yr oedd croeso cynnes bob amser.

Mae ein cydymdeimlad dwysaf â'i hunig fab, ei merch-yng-nghyfraith, a'i dwy wyres, Diane a Rosemary yn eu profedigaeth.

UNDEB Y MAMAU – Agorwyd tymor 1978–79 o weithgareddau Undeb y Mamau gyda gwasanaeth yn Eglwys Sant Gabriel o dan arweiniad y Rheithor. Daeth nifer dda i'r gwasanaeth a chafwyd cyfarfod yn yr Ysgol wedi'r gwasanaeth o dan lywyddiaeth Mrs Williams, Y Rheithordy. Y gwesteion oedd Mrs. T. Owen, Isfryn a Mrs Williams, y Rheithordy a diolchwyd iddynt gan nifer o'r aelodau.

GŴYL Y DIOLCHGARWCH – Bydd gwyl Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn cael ei chynnal yn Eglwys Sant Gabriel ar Sul 15 o Hydref, a dydd Llun 16 Hydref. Y Pregethwyr gwadd fydd y Parch. Ganon R.D. Roberts, Llwyngwril a'r Parch. W. Jones, Rheithor Llanystumdwy.

FFAIR Y CYNHAEAF – Oherwydd bod peth ansicrwydd ynglŷn â gwelliannau yn yr Ysgol Gynradd penderfynwyd peidio a chynnal Ffair y Cynhaeaf o dan Nawdd Eglwys Sant Gabriel. Fe garem ddiolch i'r prifathro am ei barodrwydd i ganiatáu rhoi benthyg yr Ysgol inni. Fodd bynnag fe benderfynwyd gyda gofid roi heibio'r bwriad o gynnal y Ffair hon eleni.

GWAELEDD – Deallwn mai gwael ydyw Mrs Sinclair, Dolafon o hyd ac anfonwn ein cofion ati. Da ydyw deall fod Mr T. Owen, 3 Dolafon yn gwella yn foddhaol ar ôl llawfeddyginiaeth. Y mae ei frawd Lloyd Owen wedi bod o dan anhwylder yn ddiweddar a'u chwaer ym Mangor hefyd wedi cael llawfeddyginiaeth. Hyderwn y cânt feddyginiaeth lwyr a buan. Y mae Mrs Watkins, Dolwen, Mrs Higgins, Bron Eryri a Miss C. Hughes, Pool Street wedi bod yn cwyno yn ddiweddar ond da yw deall eu bod yn gwella.

LLONGYFARCHION – i Miss Sioned Roberts ar ddathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain yn ddiweddar. Merch ydyw i Mr a Mrs H. Roberts, Bodgwynedd. Hir oes a llwyddiant i'r dyfodol.

# Ceunant

MARWOLAETH – Bu farw Mrs Margaret Thomas, Y Garth, ar Fedi 11 yn 93 oed. Yr oedd Mrs. Thomas yn aelod ffyddlon o Gapel y Ceunant. Mawr yw ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

GENEDIGAETH – Llongyfarchiadau i Bernard a Ross Smith, Pant Hyfryd ar enedigaeth eu mab. Ganwyd Paul Richard Bernard, brawd i Elaine ar Awst 29.

LLONGYFARCHIADAU – i Richard Ellis Owen, Bryn Maen ar ennill gradd B.A. gydag anrhydedd yn y Gyfraith. Ar hyn o bryd mae Richard yn dilyn cwrs ymhellach ym Mholitecnig, Lerpwl. Pob lwc iddo yn y dyfodol.

CROESO I'R ARDAL – i Brian ac Anice Wright a'u merch, Catherine, sydd wedi cartrefu yng Nglan-y-Dwr. Daethant yma o Christchurch, ger Bournemouth. Ganwyd a magwyd Mrs Anice Wright yn Llanberis.

CYDYMDEIMLO – Cydymdeimlwn â Mrs Davies, Tan-y-Graig ar golli ei thad. Hefyd a Mrs. G. Griffith, Tan-yr-Allt ar golli ei brawd a oedd yn byw yng Nghyffordd Llandudno.


**AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO ...............**

*Eric Morris*



**Bwsiau Arfon LLANRUG**

FFÔN WAUNFAWR 254

# PENISARWAUN

COLEG – Dymuniadau da i Bronwen Hughes sy'n dechrau ei bywyd colegol yng Nghaerdydd; i Anwen Jones ym Mangor; Cai Larsen yn Aberystwyth; Marian Jones yn Llundain; Gwenllian Jones yn Llandrillo ac i Wendy Jones; Margaret Adlam a Janice Williams yng Ngholeg Technegol Bangor.

GWAELEDD – Drwg gennym glywed bod Mrs Gwyneth Jones, 18 Bryntirion wedi bod o dan lawdriniaeth yn ddiweddar. Gobeithiwn eich gweld o gwmpas yn fuan.

DYMUNIADAU DA – i Jaqueline, wyres Mr a Mrs H.E. Roberts ar ei phriodas yn ddiweddar.

PWYLLGOR EISTEDDFOD – Mae aelodau'r pwyllgor wedi bod yn gwerthu llyfrau raffl yn ddiweddar. Diolch i bawb am fod mor barod i'n cefnogi trwy brynu tocynnau. Pwy sydd wedi ennill tybed? Wel dewch i'r Noson Goffi yn yr Ysgol, nos Wener, Medi 29, am 7 o'r gloch i gael clywed enwau'r buddugwyr!

Cofiwch hefyd am Ffair Sborion o dan nawdd ein Pwyllgor Lleol yn 'Feed my Lambs', Caernarfon, nos Fercher, Hydref 25.

EGLWYS ST. HELEN – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau, nos Lun, Medi 4. Cymerwyd y gwasanaeth gan Mr V. Owen, Caernarfon. Ef hefyd oedd y gŵr gwadd. Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmni wrth iddo sôn am y gwahanol bobl y daw ar eu traws yn ystod ei waith bob dydd. Diolchwyd iddo gan Mrs. B. Mowll a Mrs M. Davies. Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Barch. George Brewer, a hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs. J. Jones, Rhiwlas yn eu profedigaeth. Modryb i Mrs Jones a Mrs H. Roberts, Pengaer. Balch oeddym o longyfarch David Williams oedd wedi mynd bob cam i'r De i gystadlu yn y Mabolgampau. Da iawn yn wir.

YN YR YSBYTY – Yr oedd yn ddrwg iawn gennym glywed bod Bryngwyn Griffiths wedi methu ailddechrau ar ei waith yn Ysgol Cadnant y tymor hwn. Gorfu iddo fynd i'r Ysbyty ym Mangor ddechrau Medi. Brysiwch wella Bryn.

CROESO I'N PLITH – Yr oedd pawb yn falch o weld Mr Len Jones, ein prifathro, wedi dod atom i fyw. Croeso i'n plith Mr. Jones a gobeithio y byddwch yn berffaith hapus gyda ni. Yr un croeso i Mr a Mrs Paterson, a'r plant sy'n byw ar hyn o bryd yn Ancrum ger yr ysgol.

YN GWELLA – Balch ydym o weld Mrs A. Ellis, Weiglodd Goch, wedi gwella ar ôl ei chodwm egr. Erbyn i'r rhifyn hwn o'r *Eco 'r Wyddfa* ymddangos mi fydd Mrs Ellis wedi symud i'w chartref newydd yn Abergele; bydd hyn yn golled i'r fro ac yn enwedig i Ysgoldy. Mrs. Ellis, yr ydym yn dymuno bob hapusrwydd a bodlonrwydd i chi yn eich cartref newydd.

WENDY JONES

Mae'n ddrwg gennym, Wendy Jones, am adael eich enw allan o'r rhestr o'n pobl ifainc a lwyddodd yn eu harholiadau eleni.

Cafodd Wendy hwyl dda ar ei harholiadau ac ar hyn o bryd mae hi'n dilyn cwrs yng Ngholeg Technegol Bangor.



**TRIP I NEW BRIGHTON, ar Ddydd Sul, 1949-50**

AR Y BLAEN: Islwyn Williams, Ynys Iago; O. Jones, Deiniolen; R. Lloyd Jones, Deiniolen.

AIL RES: A. Owen, P. Roberts, Deiniolen; Meirion Owen, Amwythig; Olwen Williams, Deiniolen; Margaret Williams, Ynys Iago; Idris ac Idwal Roberts, Deiniolen.

TRYDEDD RES: M. Williams, Caernarfon; D. Jones, Deiniolen; Gwenlyn Parry, Deiniolen; G. Williams, Deiniolen; Goronwy Williams, Deiniolen.

Carwn wybod pwy yw'r rhai nas enwyd.

L. Roberts, 4 Green Terrace, Deiniolen.

## GŴYL THEATR CYMRU 1978

**Bydd Theatr Cymru yn torri cwys newydd yn yr Hydref eleni gyda saith wythnos o ŵyl theatrig mewn saith theatr o gwmpas Cymru. Bydd yn gyfle i greu naws gŵyl gyda chyflwyniadau tra gwahanol gydol yr wythnos, a gwna Theatr Cymru gais i'r llu o fudiadau i sylwi ar y dyddiadau fel na fydd gwrthdaro rhwng yr ŵyl a mudiadau lleol. Y gobaith yn wir yw i'r mudiadau sicrhau fod yr ŵyl yn cael ei gynnwys efallai yn rhan o weithgarwch y tymor – a dyma sydd eisoes wedi digwydd gan nifer o ganghennau Merched y Wawr, y W.I. a'r Urdd. Bydd rhywbeth yn yr ŵyl at ddant pawb, ond fel popeth arall rhaid wrth gynulleidfa ac mi fydd cydweithrediad cymdeithasau yn dderbyniol dros ben.**

**Bydd pris arbennig i'r perfformiadau i bartion, ac ym mis Medi bydd yr hysbysebion yn ymddangos yn y papurau bro. Yn ystod pob wythnos o'r ŵyl bydd y rhaglen yn cynnwys darlith gan y Dr. John Gwilym Jones, noson roc theatrig, cyfle i weld drama newydd Gwenlyn Parry, 'Y Tŵr', ac yn ogystal mi fydd comedi liwgar. Ni fydd Theatr Cymru yn segur yn ystod y dydd 'chwaith, oherwydd bob bore a phrynhawn mi fydd cyflwyniad i blant gan adran Theatr Plant, felly rhwng popeth mi fydd yn brysur dros ben.**

**Dyma'r cyfnod pryd y bydd yr ŵyl ym Mangor:**

23–28 HYDREF.

# Tan-y-Coed

LLONGYFARCHIADAU – i Manon Llwyd Evans, Carwyn, merch Dr. a Mrs Eirwyn Evans, ar ei llwyddiant yn Arholiad Gradd 2 y Royal School of Music. Disgybl Miss Clarice Williams, Summerhill, Llanberis yw Manon.

I'R YSBYTY – Dymunwn adferiad buan i Mr Ifor Williams, Cartref a gipiwyd yn sydyn i Ysbyty Môn ac Arfon. Da deall ei fod yn gwella.

DYMUNIADAU GORAU – i Delyth Wyn Jones, 3 Tai Tan-y-Coed yn ei swydd newydd ym Manc y Midland yn Llanberis. Llongyfarchiadau hefyd i Delyth ar ei dyweddïad â Mr. Emyr Thomas, Bangor.

# LLANBERIS

LLONGYFARCHIADAU – i Helen a Kevin Pavey, Rhes Cambrian ar enedigaeth eu mab cyntaf-anedig.

YN YR YSBYTY – Yn Ysbyty Minffordd, Bangor mae Mrs Mair Eluned Owen, Bod Awen, a Mrs Katie Roberts 2 Ffordd Ceunant, Brysiwch fendio!

DECHRAU DYSGU – Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd yn ei swydd gyntaf i Eurgain Williams, Stryd Newton. Mae Eurgain newydd ddechrau yn athrawes yn Ysgol Pennal, ger Aberdyfi.

TRIP – Dydd Sadwrn, Medi 16 bu Côr Genethod Llanberis am drip i Southport. 'Roedd yn ddigon hawdd gweld arnynt pan ddaethant adref, fod pawb wedi cael amser bendigedig.

Dymuna aelodau'r côr ddiolch i Miss C. Williams, Summerhill am ei gwaith gyda'r plant.

O AWSTRALIA – Yn ystod y mis bu Arthur Allen, mab hynaf y diweddar Mr a Mrs Allen, Glasgow House, yn ymweld a'r ardal. Mae yn byw ers blynyddoedd yn Awstralia, ac mae yma am 3 mis o wyliau.

Mae llawer yn ei gofio.

MARW – Nos Fercher, 13 Medi yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor bu farw Mr Michael Lloyd Williams, 7 Stryd y Dwr.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w weddw, Mrs. Megan Williams, a'r teulu.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs. Mair Roberts.

# BETWS GARMON

CRONFA'R EISTEDDFOD – Cafwyd cyngerdd ardderchog yng nghwmni Côr Llwyndyrus a gynhaliwyd yn Festri Capel Bethel y Waunfawr trwy garedigrwydd y swyddogion, ar nos Wener, Medi 15. Yr arweinydd oedd Mrs. Glenys Williams, Ty'n Weirglodd, a'r gwr gwadd oedd Mr. T.H. Roberts, Bae Colwyn (Bryn Rhyd gynt); fe dalwyd y diolchiadau gan Mrs. Nellie Williams, Bryn Rhyd.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a gafwyd, yn enwedig gan y rhai a oedd yn bresennol. Trosglwyddir £40 o'r elw i Gronfa'r Waunfawr.

Enillwyr y raffl fawr a dynnwyd yng Nghlwb y Mamau gan wr gwadd y noson, Mr. Meirion Jones, oedd: 1) Mrs Morley Williams, y Waunfawr; 2) H.E. Roberts, Y Ffôr, Pwllheli; 3) E. Hicks, Reading, Berks., 4) Harry Parry, Dinas Garage; 5) Dilys, Tŷ Mawr, Rhyd-ddu; 6) H. Roberts, 7 Cefn Cwellyn, Rhydddu; 7) Hiriart, Christchurch, Dorset; 8) Ty'n Weiglodd, Betws Garmon; 9) R. Edwards, cyn-gigydd, y Waunfawr; 10) D. Thomas, Preswylfa, Trefor.



**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

FFÔN
CAERNARFON 2898



Simneiau glân am bris rhesymol gan



*Defnyddir peiriant sugno i lanhau*

**G. LLOYD**
4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG

*Ffôn: Caernarfon 4781*

# DEINIOLEN



PRIODAS — Dydd Sadwrn, Mehefin 9 yn Penuel, Capel y Bedyddwyr, Bangor priodwyd Mervyn o 10 Tai Marian, Deiniolen a Miss Ruth Jones, Llain-Wen, Caerceiliog, Ynys Môn. Gwasanaethwyd gan y Parch. I.Ll. Williams, B.A. Bangor a'r Parch. Tom Griffith, Bryngwran gyda Mrs Enid Griffith wrth yr organ. Y morynion oedd, Carol Ann Williams, Siân Evans a Siân Llywelyn Jones. Y gwas priodas oedd Mr Kevin Jones, Rhostryfan. Mae'r priodfab yn Swyddog Gwyddonol Labordy Meddygol, a Ruth hefyd yn gynorthwywr labordy. Mae'r ddau yn Ysbyty Môn ac Arfon Bangor. Maent yn cartrefu yn 'Glandŵr', Saron, Bethel.

DIOLCH — Dymuna Windsor a Nancy Marian Williams, 10 Tai Marian, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion gwerthfawr a dderbyniodd Ruth a Mervyn ar achlysur eu priodas.

TABERNACL (EF) — Daeth y newydd trist i'r ardal ddydd Mercher, Awst 23 am farwolaeth ein gweinidog y Parch. George W. Brewer, MA., BD., Llys Menai, Y Felinheli, trwy ddamwain. Fe'n gwasanaethodd ni yn y Tabernacl ar bob achlysur yn egnïol a diflino. Rhoddodd ysbrydoliaeth i ni gario'r gwaith yn ei flaen. 'Roedd ganddo ffordd y Ffydd i arwain mewn lle-oedd cyfyng. Bu'r angladd ddydd Mercher, Awst 30 yn Amlosgfa Pentrebychan, Wrecsam ar ôl gwasanaeth yn Eglwys Ffordd Victoria, Wrecsam. Dyma benawdau'r dystiolaeth a roddodd y Parch. Dennis Griffiths, Caergybi. Yr oedd yn Gymro, yn Gymeriad, yn Gyfaill, yn Gristion a'i fywyd wedi ei seilio ar 6ed bennod Mathew. Ni ellid rhoddi tystiolaeth well, na chywirach.

Aeth llu o bentrefwyr Deiniolen i'r gwasanaeth coffa yn Elim, y Felinheli, nos Iau, Awst 31.

Cymerwyd rhan gan y Parchn. Hugh Rowlands, Llywydd y Dalaith; Alun Francis, Caernarfon, Arolygwr Cylchdaith Arfon, Abbert W. Jones, Tregarth; Tudor Davies, Bangor ac Erfyl W. Blainey, Llanfairfechan. Diolchwn am ei waith a'i arweiniad. Mae ein cydymdeimlad llwyraf â'i fam oedrannus o golli ei mab annwyl. Edmygwn hi yn fawr am ei gwroldeb ar ddydd yr angladd.

RHODD o gapel y Wesleaid Llanberis oedd y llestri Cymundeb a fendithiwyd gan y Parch. Erfyl Blainey, nos Sul, Medi 17.

Cyhoeddwyd yng Nghyfarfod Cylchdaith Arfon a gynhaliwyd ym Moriah Bangor, mai olynydd y diweddar Barch. George M. Brewer fydd y Parch. Abbert W. Jones, Tregarth.

EISTEDDFOD BRO BIGIL — Galwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn Ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen ar Fehefin 26 i ofyn barn y pentrefwyr ar godi eisteddfod yn Neiniolen. Penderfynwyd mai peth doeth fyddai cynnal eisteddfod yn y pentref a dewiswyd pwyllgor i drefnu'r gwaith. Y swyddogion yw: Cadeirydd: Mrs Gwladys Evans, Gallt y Foel; Is-gadeirydd: Mr Donald Jones, Stryd Gweledfa, Trysorydd: Mr Lesley Roberts, Green Terrace, Ysgrifennydd: Mrs Lona Lewis, Rhydfadog; Is-drysorydd: Mrs Falmai Williams, Faenol Terr. Cyfarfu'r pwyllgor cyntaf ar Fedi 5 yng Nghapel Libanus, Clwt-y-bont, a phasiwyd mai eisteddfod i blant Deiniolen a Dinorwig i fyny at ddeunaw oed fydd yr eisteddfod, a bydd yn cael ei chynnal ar yr ail o Dachwedd 1979.

Bydd y pwyllgor yn falch o unrhyw rodd tuag at gostau'r fenter hon. Efallai mai yn yr eisteddfod hon y gwelir rhai o sêr y dyfodol am y tro cyntaf.



PRIODAS — Darlun yw'r uchod o Linda merch Mr a Mrs Bertie Williams, (Pant Gwyn, Dinorwig gynt), ar ddydd ei phriodas Gorffennaf 22 hefo Mr Paul Thompson o Accrington, yn Eglwys St. Mary's, Warrington.

Ar ddydd ei phriodas cafodd Linda, sydd yn wyres i Mrs Catherine Jane Jones, 28 Hafod Oleu, wybod iddi ennill gradd (B.Ed.) Llongyfarchion cynnes i Linda a'i phriod. Byddant yn ymgartrefu yn Port Elizabeth, De Affrica.

GENI — Ar Awst 9 yn Ysbyty H.M. Stanley, Llanelwy, ganwyd merch (Delyth Wyn) i Hefin ac Eleri Jones. 'Roedd Eleri gynt o 5 Rhydfadog. Dymunant ddiolch i bawb am y cardiau a dderbyniasant ar achlysur geni Delyth Wyn.



Y BROWNIES — Dyma lun o 'Brownies' Deiniolen yn ystod eu hymweliad a Sw Bae Colwyn. Aethant i Bwll Nofio Bangor hefyd yn ystod yr haf a chawsant ddigon o hwyl.

DIOLCH — Dymuna Mrs A.M. Jones, 1 View Terrace, ddiolch o galon i'r meddygon a staff Ysbyty Môn ac Arfon ac Ysbyty Minffordd, a chyfeillion a pherthnasau am eu caredigrwydd mawr tuag ati yn ystod ei gwaeledd.

CROESO — cynnes i'r ardal i'n plismon newydd, Mr. Bryan Thomas, a'i deulu. Mae Mr. Thomas yn enedigol o Ddolgellau, a June, ei briod, o Benisarwaun Merch yw Mrs Thomas i Guto Owen Williams, Cae Hywel. Mae ganddynt un eneth fach, Rebecca.

MWY AM Y DEISEN — Ydych chi'n cofio hanes Mrs Emyr Pritchard yn yr *Eco* mis Awst yn canu yn Torquay ac yn cael teisen? Mae'n ddrwg iawn gennym am anghofio dweud pahamyr aeth Mrs Pritchard i fyny ar y llwyfan! 'Roedd hi'n dathlu ei phen-blwydd yn 65 oed yn ystod yr wythnos. Unwaith eto llongyfarchiadau iddi.

NEWIDIADAU YN NHIM YR ECO — Gwelwch yng ngholofn Swyddogion yr Eco fod Gwyndaf Roberts wedi trosglwyddo'r gwaith o gasglu newyddion Deiniolen a'r cylch i Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont. Diolch yn fawr iawn i Gwyndaf am ei gymorth i'r papur a chroeso i Meirion i'w swydd newydd. Meirion, cofiwch, sydd wedi bod yn gyfrifol am drefnu gwerthiant yr Eco yn Neiniolen dros gyfnod o ddwy flynedd. Wrth newid swydd dymuna Meirion ddiolch o waelod calon i'w werthwyr yn y cylch am eu cydweithrediad a gofyn iddyn nhw gefnogi'r Trefnydd Gwerthiant newydd Mr. Caradog Thomas, gyda'i waith. Croeso cynnes i Garadog.

LLONGYFARCHIADAU — i Julie Leatherbarrow ar ei llwyddiant mewn arholiad canu'r piano (Gradd 2). Mae'n ddisgybl i Mrs Roberta Griffith, Bod Elwy, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

I Malcolm Roberts, 47 Rhydfadog ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Fedi 27 a hefyd ar ei lwyddiant yn ei arholiadau yng Ngholeg Aston, Wrecsam.

PLAID CYMRU — Cynhelir cyfarfod blynyddol y gangen nos Wener, Tachwedd 3 am 7 o'r gloch yn yr Ysgol. Disgwylir ein Haelod Seneddol, Mr Dafydd Wigley, i roi anerchiad. Croeso cynnes i bawb.



NEWYDDION Y SEINDORF — Dyma lun Mrs. Lona Lewis a Mr. W.O. Williams a fu ar daith wthio coits yn ddiweddar o Ddeiniolen drwy Benisarwaun, Llanrug, Cwm-y-glo ac at Westy'r Victoria, Llanberis lle 'roedd y Seindorf yn aros i'w croesawu. Gwnaethpwyd y daith er mwyn codi arian ar gyfer eu hymweliad â'r Almaen ym mis Hydref. Byddant wedi bod ac wedi dychwelyd gartref erbyn y rhifyn nesaf o'r *Eco*. Ar Medi 30 bydd y band yn diddanu y miloedd a ddisgwylir i ddiwrnod agored Gorsaf Drydan Dinorwig.

Byddant yn rhoi eu cyngerdd olaf cyn hwylio am yr Almaen yn Ysgol Dinorwig ar Hydref 6. Yr wythnos ganlynol byddant yn cychwyn ar eu taith am Sheerness ac yna hwylio oddi yno i'r Iseldiroedd, aros noson yn Arnhem ac wedyn ymlaen i Ddysyldorff. Byddant yn dychwelyd bore Gwener i Brussels ac adref ar y Sul.

Ar ôl dychwelyd bydd yn rhaid i'r seindorf ddechrau ymarfer ar gyfer eu cystadleuaeth yn Connah's Quay fis Tachwedd.

# DINORWIG

Y GYMDEITHAS UNDEBOL — Cynhelir cyfarfod agoriadol y tymor am 7 o'r gloch, nos Iau, Hydref 12 yn y Ganolfan Gymdeithasol, pryd y bydd Rhianedd Môn yn diddori'r cwmni. Ceir tocynnau gan y llywydd, Mr. Richard Williams, Tŷ Capel, yr ysgrifennydd, Mr. David Hughes, 2 Maes Eilian, a'r drysoryddes, Mrs. Hannah M. Roberts, Tŷ'r Ysgol. Pris y tocynnau fydd 50c i oedolion a 25c i blant. Bydd rhaglen y tymor ar gael yn ystod y noson am bris o 20c. Croeso i bawb ac i rai o'r ardaloedd cyfagos.

DIOLCHIADAU — Dymuna Mr a Mrs Eurwyn Pleming, 1 Maes Eilian, ddiolch o galon am y caredigrwydd a ddangoswyd gan y teulu a'r cymdogiog i Eurwyn, tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

LLONGYFARCHIADAU — i Mr a Mrs John E. Thomas, Bwlch-y-Gwynt am fod yn daid a nain gyda geni eu hwyres, Eleri, merch Mr a Mrs David Evans, 13 Rhydfadog, Deiniolen.

MARW — Yn Ysbyty Môn ac Arfon, Medi 10, bu farw Mr John Ernest Williams, Parc, yn 71 oed. 'Roedd yn enedigol o'r ardal. Cydymdeimlir â'i chwaer, Mrs Ellen Roberts, Elwydd, y Waunfawr, a'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth.

Yn Ysbyty Bryn Seiont, Medi 16 bu farw Mr John H. Williams, 7 Maes Eilian yn 63 oed. Dioddefodd yn siriol gystudd hir a chaled. Cydymdeimlir â theulu 7 Maes Eilian, a'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth.

CROESO GARTREF — Da gennym groesawu adref Miss Heulwen Jones, Cegin ar ôl bod am gyfnod yn Ysbyty Mon ac Arfon yn cael triniaeth. Gwellhad buan iddi a'r cleifion eraill yn yr ardal.

COFION — Anfonir cofion cynnes at Arfon Roberts, Ysgubor, sydd dan driniaeth yn Ysbyty Walton.

BEDYDDIO — Pnawn Sul, Medi 17, yng Nghapel Dinorwig, M.C., bedyddiwyd gan y Parch. Ronald W. Roberts, Deiniolen, Gareth Siôn, baban bach Mr a Mrs Gareth Davies, 13 Tai Caradog, Deiniolen.

LLONGYFARCHIADAU — i Mrs. Jane Griffiths, merch Mrs Maggie Griffiths a'r diweddar Mr William Griffiths, gynt o 1 Maes Eilian, ar yr anrhydedd a roes ei Mawrhydi y Frenhines arni yn rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd, trwy ei gwneud yn Aelod o Urdd yr Ymherodraeth Brydeinig, (MBE). Mab i Mrs Jane Griffiths yw Keith, a bydd eu cydnabod yn Ninorwig yn falch o glywed iddo yntau gael llwyddiant ysgubol yn ei arholiadau diweddar gan ennill Gradd Dosbarth Gyntaf yng Nghaergrawnt.


**E.W.&M.WILLIAMS**



**Y BECWS**
**DEINIOLEN**

FFÔN : LLANBERIS 232

**BARA FFRES — TEISENNAU BLASUS !**

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

**DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN**

# Dyddiadur y Mis

Hydref 2, Llun: LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth nos WEA yn yr ysgol am 7 o'r gloch (Arlunio).
WAUNFAWR: Dosbarth nos WEA – 'Llên , Llyfr a Llafar' gyda Mr. John O. Huws, M.A. yn yr Ysgol Gynradd am 7.15.
LLANRUG: Dosbarth nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch.
3, Mawrth: DEINIOLEN: Dosbarth nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch.
LLANBERIS: Undeb y Mamau. Pwyllgor Lleol Eisteddfod '79 yn Festri Gorffwysfa am 8.00.
4, Mercher: BRYNREFAIL: Dosbarth nos WEA yn y Festri am 7.30.
LLANBERIS: Clwb y Mamau yn y Ganolfan am 7.30. Y Gymdeithas Ddrama.
5, Iau: WAUNFAWR: Sefydliad y Merched yn yr ysgol. Clwb Gwyrfai yn Neuadd yr Eglwys.
DEINIOLEN: Cyfarfod Chwiorydd Disgwylfa.
6, Gwener: YR ARDAL: Clwb Eryri yn nhy bwyta'r Gwynedd – y noson yng ngofal Mr. W.A. Jones.
BETHEL: Cyngerdd yn Festri Cysegr, yr elw er budd Cronfa Eisteddfod '79.
LLANBERIS: Clwb yr Henoed. Noson o ffilmiau yn y Ganolfan am 7.30. Yr elw er budd Cronfa'r Eisteddfod.
BETHEL: Cyfarfod agoriadol tymor yr Urdd. WAUNFAWR: Dosbarth nos WEA yn yr ysgol am 7 o'r gloch (Arlunio). PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
DEINIOLEN A DINORWIG: Cyngerdd yn y Ganolfan Gymdeithasol, Dinorwig gan Seindorf Deiniolen. Mynediad yn rhad ac ddim.
7, Sadwrn: LLANRUG: Taith Feiciau Noddedig er budd Cronfa Rigarug.
8, Sul: LLANRUG: Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Sant Mihangel Dosbarth nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch. BETHEL: Cyfarfod agoriadol Clwb y Rhos am 7.30. Dosbarth nos Gwnio yn yr Ysgol Gynradd. WAUNFAWR: Dosbarth nos WEA 'Llên, Llyfr a Llafar' yn yr ysgol am 7.15. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pel-droed yn y Ganolfan am 7.30 Dosbarth nos WEA 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn yr ysgol am 7.00.
10, Mawrth: DEINIOLEN: Dosbarth nos WEA yn yr ysgol am 7.00. Clwb Elidir. CWM-Y-GLO: Undeb y Mamau
11, Mercher: LLANBERIS: Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. Y Gymdeithas Ddrama BETHEL: Merched y Wawr – sgwrs gan Mr Iorwerth Hughes. BRYNREFAIL: Dosbarth nos WEA yn y Festri am 7.30.
12, Iau: DINORWIG: Y Gymdeithas Undebol yn y Ganolfan Gymdeithasol am 7 o'r gloch... noson agoriadol yng nghwmni 'Rhianedd Môn'.
LLANRUG: Clwb Blodau'r Grug.
LLANBERIS: Cangen Plaid Cymru – sgwrs gan Mr Dafydd Orwig, Bethesda yn y Ganolfan am 7.30.
BETHEL: Dosbarth nos 'Cadw'n Heini' yn yr ysgol.
13, Gwener: BETHEL: Yr Urdd – Noson o Ffilmiau. PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. WAUNFAWR: Cyngerdd gan Barti'r Bryniau yn Festri Capel Bethel. Yr elw at Cronfa Eisteddfod '79.
Dosbarth nos WEA –'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn yr ysgol am 7.00.
15, Sul: CWM-Y-GLO: Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Sant Gabriel
16, Llun: YR ARDAL: Gwasanaethau Diolchgarwch yn y Capeli a'r Eglwysi.
18, Mercher: CWM-Y-GLO: Merched y Wawr. BRYNREFAIL: Dosbarth Nos WEA yn y Festri am 7.30. LLANBERIS: Clwb y Mamau yn y Ganolfan am 7.30.
19, Iau: LLANBERIS: Disco dan nawdd y Clwb Pel-droed yn y Ganolfan.
20, Gwener: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 BETHEL: Yr Urdd – Noson o Ffilmiau. LLANBERIS: Clwb yr Henoed.
23...28: GŴYL THEATR CYMRU yn THEATR GWYNEDD, BANGOR.
23: Llun: LLANRUG: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch.
WAUNFAWR: Cyfarfod agoriadol y Gymdeithas Lenyddol – sgwrs gan Mr. Arthur Vaughan Jones, Pwllheli ar Fyd Natur.
LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth Nos WEA 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn yr ysgol am 7 o'r gloch. BETHEL: Dosbarth Nos Gwnio.
24, Mawrth: DEINIOLEN: Clwb Elidir Dosbarth Nos WEA yn yr ysgol am 7.00
LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol – Cyfarfod Agoriadol y Tymor yn Festri Capel Pontrhythallt am 7 o'r gloch.
LLANBERIS: Cyfarfod agoriadol y Gymdeithas Lenyddol am 7 o'r gloch yng Ngorffwysfa, pryd y ceir pregeth gan y Tad Barnabas (Eglwys Uniongred Groeg) o Ddolgellau.
25, Mercher: LLANBERIS: Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. Y Gymdeithas Ddrama BETHEL: Ffair Sborion o dan nawdd Pwyllgor Lleol Eisteddfod '79 yn 'Feed my Lambs' Caernarfon. BRYNREFAIL: Dosbarth nos WEA yn y Festri am 7.30.
26, Iau: BETHEL: Y Gymdeithas Lenyddol – noson gan Barti o Ddinorwig yn Festri Capel Bethel. LLANRUG: Twmpath Dawns yn Neuadd Ysgol Brynrefail. WAUNFAWR: Merched y Wawr. LLANBERIS: Sefydliad y Merched.
27, Gwener: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 BETHEL: Clwb y Mamau yn yr ysgol am 7.30. Yr Urdd – cystadlaethau ysgrifenedig ac arlunio gogyfer ag Eisteddfod Gadeiriol Bethel. WAUNFAWR: Dosbarth WEA, 'Gwerthfawrogi Celfyddyd', yn yr ysgol am 7.00. LLANBERIS: 'Noson Calan Gaeaf' i'r plant yn y Ganolfan, yr elw er budd Cronfa'r Eisteddfod.
30, Llun: WAUNFAWR: Dosbarth nos WEA 'Llên, Llyfr a Llafar' yn yr ysgol am 7.15. LLANRUG: Dosbarth nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch. LLANBERIS: Dosbarth Nos WEA yn yr ysgol am 7 o'r gloch. Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.
31, Mawrth: DEINIOLEN: Dosbarth nos WEA yn yr ysgol am 7.00.

### DYDDIADAU I'W COFIO

TACHWEDD 1: BETHEL: Noson o Wau Noddedig. Yr elw at Gronfa'r 'Steddfod '79.
TACHWEDD 1: WAUNFAWR: Noson y Gwrachod yn Neuadd yr Eglwys am 6.30.
TACHWEDD 3: LLANBERIS: Dawns Calan Gaeaf gyda lluniaeth ac adloniant yng Ngwesty'r Victoria, – yr elw at Gronfa'r Eisteddfod.
TACHWEDD 10 ac 11: EISTEDDFOD GADEIRIOL BETHEL.



### YN EISIAU

LLWY GARU Gymreig newydd neu ail-law. Ffôn: 670 593.

### AR WERTH

**2 STORAGE RADIATOR** – Electrolux a Heatstore 3 kw – £12 yr un. Yn gweithio'n gampus. **Ffôn: Waunfawr 457** (ar ôl 6.30 p.m.)


# CROESAIR (27)



Enw: ..........................................................

Cyfeiriad: ..........................................................

..........................................................

..........................................................

**AR DRAWS:**

3. Gwlad yn Ewrop (7)
7. Drain ac ysgall, mall a'i medd Mieri lle bu ...... (6)
8. Mynd i edrych am (6)
9. Cysegru (8)
11. Cefais gynnig mynd i Dywyn gyda hwn! (4)
12. Amddiffynwyr – byddin (9)
17. Suddo mewn dŵr (4)
18. Trem, gwedd (8)
19. Arwerthiant (6)
20. Perthynas (6)
21. Amlhau (7)

**I LAWR:**

1. Caseg (3. 4)
2. Rhagor (7)
3. Mae popeth yn fawr yma – dyna yw'r honiad beth bynnag! (7)
4. Dweud celwydd neu siomi (5)
5. Tâl i ddigolledu (7)
6. Gafael (5)
10. Cyflwr y corff (5)
13. O bryd i'w gilydd (7)
14. Gwneud duw o rywbeth (7)
15. Arbennig (7)
16. O un pen o'r ddaear i'r llall (3. 1. 3)
17. Llyffant melyn (5)
18. Blaendal (5)

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren:
ch; dd; ff; ng; ll; ph; rh; th

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir wedi i'r holl gynigion ddod i law.

Anfoner y cynigion fel arfer i: **Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr Llanberis.**

Ni dderbyniwyd yr un ymgais a groesair Gorffennaf, ond dyma' atebion.

**AR DRAWS:** 1. Sefyllfa; 5. Dysgl 8. Dilys; 9. Eglureg; 10. Milltir oedd; 12. Egr; 13. Dynodi; 14 Pan fwy; 17. Yna; 18. Dadansodd 20. Cardota; 21. Ficer; 23. Reiol 24. Toredig.

**I LAWR:** 1. Sodom; 2. Fel; 3 Llosgiad; 4. Awelon; 5. Dolydd; 6 Sir Benfro; 7. Labordy; 11. Llanw a thrai; 13. Dwy acer; 15. Annify 16. Odlant; 18. Diodl; 19. Iorwg 22. Cad.


GWASG GWYNEDD

## YN EISIAU

**TEIPYDD (profiadol)**
**i deipio papurau bro, cylchgronau, llyfrau ac ati ar gyfer eu hargraffu – gwaith diddorol!**

Ceisiadau ysgrifenedig i:
GWASG GWYNEDD,
NANT PERIS
CAERNARFON.

Byddwn yn symud i adeilad newydd yng Nghaernarfon yn y dyfodol agos

# CHWARAEON

# YR UN HEN STORI O HYD

Wedi dau fis cyntaf y tymor fynd heibio, mae'n edrych yn eithaf tebyg mai timau o ardal 'Eco'r Wyddfa' fydd yn ymladd am y gwobrau pêl-droed eleni eto:

| | Ch | E | Cyf | Colli | O. Bl. | yn erb | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanrug | 8 | 8 | 0 | 0 | 44 | 9 | Pwyntiau = 16 |
| Llanbêr | 9 | 7 | 0 | 2 | 32 | 10 | Pwyntiau = 14 |
| C'fon U. | 6 | 5 | 0 | 1 | 17 | 5 | Pwyntiau = 10 |

Ar ôl dechrau braidd yn ddigalon, mae Llanberis bellach yn ennill eu gemau, ac am geisio gwneud yn siŵr nad yw Llanrug am gael popeth eu ffordd eu hunain.

### LLANBERIS

**2.9.78**
**Harlech 0 Llanberis 3**

Gêm galed i Lanberis, a Harlech yn methu manteisio ar lawer cyfle da i sgorio. Gwilym Williams (2) ac Einion Holland yn selio'r gêm i Lanberis.

**Portdinorwic 2 Llanberis 3**
**5.9.78**

Kelvin Jones yn ennill y gêm i Lanberis o'r smotyn gwyn ar ôl dwy gôl gan J. Ryan ac Iwan Evans.

**Llanberis 6 Pwllheli 1**
**9.9.78**

Methu o'r smotyn gwyn fu hanes Kelvin Jones y tro hwn, ond Einion Holland yn cael sbri wrth sgorio pedair gôl o fewn ychydig funudau i'w gilydd. Iwan Evans a Gareth Williams sgoriodd y ddwy gôl arall, a Brian Edwards, un o hen chwaraewyr Llanberis yn sgorio i Bwllheli.

**Mountain Rangers 0 Llanberis 2**
16.9.78

'Dyw ardal yr 'Eco' ddim yn un o hoff fannau Talysarn, ac am yr ail waith o fewn mis yn cael curfa iawn yma. Llanberis yn eu baeddu y tro hwn, gyda thair gôl gan Gwilym Williams, a gôl yr un gan Iwan Evans, Einion Holland a Ray Harding (yn ei gêm gyntaf y tymor hwn). Kelvin Jones yn sgorio'r llall.

### LLANRUG

**Llanrug 11 Talysarn 4**
**2.9.78**

Peiriant sgorio Llanrug yn y gêr uchaf, a V. Lloyd (4) a Dic Owen (3) yn manteisio'n llawn ar y gagendor yn amddiffynfa Talysarn. Len Padmore, Hefin Jones, Gwynfor Owen ac Alan V. Owen yn helpu i orffen y sgorio.

**Llanrug 3 Bethesda 0**
**5.9.78**

G.V. Owen, Len Padmore a V. Lloyd yn sgorio gôl yr un i ennill gêm ddigon diflas ar noson oer.

**Harlech 0 Llanrug 3**
**9.9.78**

Diwrnod gwyntog a hynny'n amharu ar safon y chwarae, ond Len Padmore, Dic Owen a V. Lloyd yn dod â'r pwyntiau'n ôl i Lanrug.

**Llanrug 4 Nefyn 3**
**16.9.78**

Pedair gôl yn yr hanner cyntaf i Lanrug gan Dic Owen, V. Lloyd, Gwynfor Owen ac A.V. Owen; er iddynt fethu llawer mwy, a dioddef oherwydd hynny yn yr ail hanner. Nefyn yn ymladd yn ôl yn ffyrnig a gwynt cryf o'u cefn. Cael a chael i ennill dau bwynt.

**Porthmadog 1 Llanrug 9**
**23.9.78**

Porthmadog yn ddigon haerllug i sgorio gyntaf o fewn pum munud, ond yn cael eu cosbi'n drwm am hynny cyn diwedd y pnawn. Dic Owen (4) yn rhoi gwers mewn sgorio iddynt, gyda chymorth Vernon Lloyd (2), Len Padmore (2) a Peter Roberts.

### UN YR UN!

**Llongyfarchiadau i Hugh Hughes a Hefin Jones o dîm Llanrug — y ddau yn dad i enethod, a'r ddwy dros naw pwys ar eu geni. 'Tydi Llanrug yn sgorio'n dda'n ddiweddar!**

### TÎM PÊL-DROED Y WAUNFAWR



*Rhes flaen: (o'r ch'with i'r dde) Tomos Elias Thomas (Twm Lei); Gruffydd Evans (Guto Sgwei); Owen Thomas (Now Tom Parchedig); Wm Morris, Bryn Golau (tad John Morris Aberdaron); Robert Jones (Robin Teras, tad Goronwy); 2il rhes: Wm. Hughes, Bwlch Ffordd; Ifan Jones Collfryn (priododd hefo Mary Nyrs); Robert Philip Jones (Robin Jack Phil); 3ydd rhes: David Jones (Dafydd Bach Tŷ Becar, tad Leslie yr Ysgolfeistr); Robert Jones (Robin Salem); Thomas Evans (Twm Sgwei); John Griffith, Cefn Du Terr., Gruffydd Hughes (Guto Cross, tad Greta); Y ddau bach: (Dim yn gwybod); Charles Sgwei; Rhes ol: Edward Owen, Ty Newydd (Ned Bach Owen Owas); y ddau nesaf ddim yn gwybod; Wm. Hugh Rowlands, (hogyn Sion Go y Postman); yr olaf — ddim yn gwybod.*

*Y llun trwy garedigrwydd Mrs. Hughes, Bryn Hyfryd, y Groeslon, Caernarfon gynt o Arwel, Betws Garmon.*

### AI DYMA'R GORA?



*"O bosib," medd rhai, "hwn oedd y tîm pêl-droed gora fu yn yr ardal yma erioed." Mae hwn yn osodiad go gryf ac 'rwy'n siŵr y bydd llawer yn anghytuno. Tîm Llanberis yn y tymor 1951—52 oedd hwn ac fe welir dau yn unig o Lanberis ynddo. Hogia wedi eu dwyn i mewn o wahanol ardaloedd yng Ngogledd Cymru oedd y mwyafrif.*

*'Rwy'n siŵr fod stori ddiddorol yn perthyn i'r tîm hwn ac y cawn dipyn o'r hanes gan rywun yn y rhifyn nesaf — ac efallai yn cadarnhau mai dyma dîm y ganrif neu i'r gwrthwyneb! Trist meddwl ein bod wedi colli un sydd yn y llun yn ystod y mis diwethaf. 'Roedd Mr. Michael Lloyd Williams (gyda'r fflag) yn un o weithwyr a chefnogwyr mwyaf diwyd tîm Llanber. Bydd melys gofio.*

### CHWARAE Â THÂN



*Ychydig, mae'n debyg, sy'n meddwl am ddringo mynyddoedd fel 'chwaraeon' — chwarae â thân fyddai sylw llawer un, yn enwedig rhai o'r ardal yma. Ond mae'n grefft arbennig iawn sy'n cael ei harfer gan filoedd drwy'r wlad. Mae llawer yn tyrru i Fwlch Llanberis a'r Wyddfa i herio ac i goncro'r llethrau. Wrth gwrs, fel ymhob chwarae, ceir rhai dibrofiad yn herio ac yn mentro'n rhy bell, a dyna lle daw gwaith gwirfoddolwyr tîm achub Llanberis i mewn. Am adroddiad llawn o ymarferiadau'r tîm, gweler y tudalennau canol.*